

# *Tirweddau Cyfnewidiol*
# *Changing Landscapes*

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales

*Daearyddiaeth Gogledd Cymru yw un o nodweddion amlycaf bywyd yn y rhan hon o'r wlad ac mae'n dylanwadu ar ein penderfyniadau beunyddiol ymron yn ddiarwybod i ni. Boed fynyddoedd mawreddog Eryri ynteu draethau Môn neu Feirionnydd, dyma'r nodweddion sy'n lliwio'n bywydau mewn ffyrdd unigryw.*

Mae'n hawdd, fodd bynnag, rhamanteiddio cefn gwlad a thelynegu'n rhwydd am gaeau, gweirgloddiau a phentrefi tawel gyda mwg tanau mawn yn ymgodi'n dyner fel sibrydion o'r simneiau. Prin y byddwn yn gweithio ysbrydolrwydd sy'n gallu dygymod â llifogydd a hunllef cnydau colledig neu fewnlifiad y twristiaid sy'n dod ag incwm mae'n rhaid i ni wrtho ond sydd eto'n amharu ar batrymau hirsefydlog bywyd cefn gwlad. Rydym yn ymhyfrydu yng nghopaon y ddwy Aran ond yn gwirioni llai ar drawiad gweledol yr A55 hollbwysig a'i gwaddol mewn allyriadau carbon a symudedd cymdeithasol sy'n sugno cyflogaeth o'r ardal.

Pa fath o beth yw ysbrydolrwydd 'byd go iawn' sy'n talu sylw i ddaearyddiaeth ffisegol a dynol yr ardal hon ac sydd yn ein paratoi i gyfarfod â'r Arglwydd sy'n dod i 'farnu'r byd' ac y mae'r ymgnawdoliad yn rhag-gysgodi ei ddibenion eithaf?

Cwrs yw ***Tirweddau Cyfnewidiol*** sy'n ceisio mynd i'r afael â materion hollbwysig yn ein bywydau drwy ffenestr ffydd yr Adfent. Mae themâu paratoad yn treiddio drwy bob pennod fel y gallwn oll fod yn barod i gyfarfod yr Un a ddaeth fel plentyn ond sydd eto'n Arglwydd ar bopeth.

***The geography of North Wales is one of the most obvious features of life in this part of the country and informs everyday decisions almost unconsciously. Whether the grand mountains of Snowdonia or the coastlands of Anglesey and Meirionnydd, these are the features which shape our lives uniquely.***

It is easy, however, to romanticize the countryside and wax lyrical about fields, lowlands and sleepy villages with woodsmoke gently wafting from silent chimneys. We rarely forge a spirituality that copes with floods and the heartache of ruined crops, or with the influx of tourists that generates much needed income but disrupts settled and established patterns of country life. We enjoy the peaks of the Arans but are less keen on the visual impact of the vital A55 and the attendant issues of carbon emissions and social mobility which takes employment from the area.

What is a 'real world' spirituality which draws on the geography, physical and human of this area which prepares us to meet the Lord who comes to 'judge the earth' and whose final purposes are anticipated in the incarnation?

***Changing Landscapes*** is a course which seeks to address critical life issues through the lens of Advent faith. The themes of preparation puncture each chapter so that we might all stand ready to meet the One who came as a child and is yet Lord of all.



*Yr Athro Robin Grove-White yn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor*
*Professor Robin Grove-White receiving his Honorary Fellowship at Bangor University*

# Cyflwyniad

Bu dwy agwedd erioed i fyd gweithredu amgylcheddol. Bu'n ymaflyd â gwirioneddau pwysfawr y *presennol* – ymyrryd i amddiffyn natur wyllt, anifeiliaid a phlanhigion, adeiladau a thirweddau hanesyddol, ein treftadaeth archaeolegol gyffredin, yr holl bethau hynny sydd dan fygythiad parhaol oddi wrth arferion a gofynion ein cymdeithas ddynamig.

Ond mae hefyd yn ymwneud â'r *dyfodol*. Trwy weithredu cyhoeddus pendant heddiw, gallwn gynorthwyo i lywio'r ffyrdd y bydd cymdeithas yn datblygu yn y dyfodol fel ag i leihau'r difrod a wneir, gan ddewis gwneud ein rhan ninnau mewn cyfeirio cymdeithas tuag at lwybrau newydd a mwy caredig. Dyna pam mae llawer ohonom yn uno i weithredu ar y cyd fel aelodau o gymdeithas sifil.

Rwy'n gwybod ar ôl bod yn ymwneud yn ymarferol â gwleidyddiaeth yr amgylchedd dros sawl degawd bod gweithredu'n cael ei ysgogi gan bryder a gobaith fel ei gilydd. Yn hytrach na'n bod ond sefyll o'r neilltu a gwag ofidio, mae gweithredu ymarferol yn creu ei fomentwm ei hun, gan ein maethu â'r hyder i sicrhau newid.

Ar yr un pryd, mae pawb ohonom yn aelodau o'r un gymdeithas ac felly'n cyfranogi ein hunain mewn llawer o'r union brosesau rydym yn teimlo bod angen eu newid. Mae hefyd yn wir bod

# Foreword

The world of environmental action has always had two faces. It's been about immediate *present* realities – intervening to protect wild nature, animals and plants, historic buildings and landscapes, our collective archaeological heritage, all continually threatened by our dynamic society's habits and demands.

But it's also about the *future*. Through decisive public action now, we can help reshape the trajectories of society's future development so as to lessen the destructiveness, by choosing to play a role in steering society towards new and kinder paths. That's why many of us unite in collective action as part of civil society.

I know from hands-on engagement in the politics of the environment over several decades that action is driven by both anxiety and hope. Rather than just standing by and wringing our hands, becoming actively engaged creates its own momentum, feeding us with the confidence to bring about change.

At the same time, all of us are members of one society and thus implicated in many of the very processes we feel need to be altered. What's more, political action often involves anger, over-simplification and compromise.

gweithredu gwleidyddol yn aml yn cynnwys dicter, gorsymleiddio a chyfaddawd.

Felly sut mae cysoni croesddywediadau o'r fath? Fel Cristion, rwy'n edrych ar heriau enfawr bygythiadau amgylcheddol ein dyddiau ni – newid hinsawdd, difodiant rhywogaethau, crebachu tir comin – fel arwyddion o 'ocheneidio'r greadigaeth' y cyfeiria Sant Paul ato yn ei lythyr at y Rhufeiniaid. Mae'r byd, y cosmos, yn barhaus yn 'dyfod i fod'. A chlai dynol ydym ninnau, bodau amherffaith, sydd yn cael ein galw i fod yr hyn ydym ni o ddifrif. A chan mae bodau *daearol* ydym, mae hynny'n awgrymu canfod ein hunain drwy ymwneud mewn ffyrdd ymarferol â'r byd o'n cwmpas. Yn yr ystyr hwnnw, mae'n ymddangos i mi, rydym wedi'n galw i *gyfranogi*, pa mor fach bynnag fo'r cyfraniad hwnnw, yn y gwaith o greu.

Ac mae heriau newydd yn ymddangos o hyd. Ym mhobman o'n cwmpas yma yng Ngwynedd ac Ynys Môn fe welwn wersi o'r gorffennol a negeseuon i'r dyfodol. Fel y dengys yr ysgrifau hyfryd yn y tudalennau sy'n dilyn, mae amgylchfyd pawb ohonom yn llawn o straeon sy'n darlunio'r penblethau a'r tensiynau sy'n codi o'r llwybrau datblygu mae cymdeithasau modern yn parhau i'w dilyn.

Mae addewid yr Adfent yn cynnig i ni adeg i ganolbwyntio nid yn unig ar adnewyddu ein ffydd ond hefyd ar y llu o gyfleoedd newydd sydd yna i fynegi'r ffydd honno drwy ymwneud mewn ffyrdd mwy ymarferol ag ingoedd, yn ogystal â phosibiliadau rhyfeddol, y byd a rannwn.

**Robin Grove-White**
***Medi 2020***

*Mae Robin Grove-White yn Athro Emeritws yn yr Amgylchedd a Chymdeithas ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Yn ystod ei yrfa bu'n dal swyddi arweiniol yn Greenpeace UK, Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig a'r Ganolfan ar gyfer Astudio Newid Amgylcheddol. Mae bellach wedi ymddeol ac yn byw yn Llanfechell, Ynys Môn.*

So how to reconcile such contradictions? As a Christian I see the massive challenges of today's environmental threats – climate change, species extinctions, over-consumption, depletion of the commons – as signals of 'the groaning of creation' referred to by St Paul in his letter to the Romans. The world, the cosmos, is in a state of becoming. And we are human clay, imperfect beings, called to become 'who we are' – which, because we're *grounded* beings, points towards finding ourselves through real-life involvement in the world. In this sense, it seems to me, we're called, however modestly, to be *participants* in creation.

And the new challenges just keep on coming. All around us here in Gwynedd and Ynys Mon are lessons from the past, and pointers for the future. As the lovely vignettes that follow in these pages show, our immediate surroundings are full of stories symbolising the dilemmas and tensions that arise from modern societies' continuing patterns of development.

The promise of Advent offers the occasion to focus not only on renewal of our faith, but also on the many fresh opportunities for expressing it, through more active engagement with the agonies, as well as the glorious possibilities, of the world we share.

**Robin Grove-White**
***September 2020***

*Robin Grove-White is Professor Emeritus of Environment and Society at Lancaster University. During his working life he played leadership roles in Greenpeace UK, the Campaign for the Protection of Rural England, and the Centre for the Study of Environmental Change. He is now retired and lives in Llanfechell, Ynys Mon.*

# 1

# Llwybrau Hen a Newydd

# Roads and Routes



*O Benmachno i Ddolwyddelan*
*From Penmachno to Dolwyddelan*

## Ffordd ymron diflannu

Roedd y llwybr yn ymddangos yn eglur ar y map: llinell o ddotiau gwyrddion yn cysylltu pentrefi Penmachno a Dolwyddelan, gan ddringo hyd at fwlch rhwng dau fryn isel a chroesi drosto. Efallai i'r llwybr hwn fod yn un o'r hen ffyrdd porthmyn niferus a dramwyai'r wlad, llwybrau hirion a ddefnyddid hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan y rhai a oedd yn gyrru buchesau a phreiddiau i'r marchnadoedd da byw. Mabwysiadwyd llawer o'r llwybrau hyn fel ffyrdd ond parheir i ddefnyddio eraill ohonynt hefyd i raddau mwy neu lai.

Fodd bynnag, roedd yr hyn a ymddangosai mor eglur ar y map ymhell o fod yn eglur ar y ddaear. Roedd y tywydd ac, yn fwy diweddar, beicio gwlad, wedi peri dirywiad mawr yn y llwybr, fel bod yr hen ffordd fel petai'n diflannu i gorsydd a achoswyd gan weithgaredd coedwigo wrth iddi ddringo drwy'r planhigfeydd. Drwy

## A road less travelled

The route looked clear on the map: a dotted green line joining the villages of Penmachno and Dolwyddelan, winding up and over a pass between two low hills. It may have been one of the many former 'drovers' roads that crossed the country, long-distance trails used until the mid-nineteenth century by those driving herds and flocks to livestock markets. Many of these trails were adopted as roads but others remain in use to a greater or lesser extent.

What the map showed so clearly was far from clear on the ground, however. Severely degraded by weather and, more recently, off-road trailbikes, this old road seemed to disappear into forestry-induced bog as it rose higher through the plantations. A combination of (mostly) inspired guesswork and dogged consultation of the Ordnance Survey map led eventually to a triumphant summiting of the

gyfuniad o ddyfalu (eithaf cywir – gan fwyaf) ac ymgynghori'n fanwl â map yr Arolwg Ordnans, llwyddwyd i gyrraedd pen uchaf y bwlch rhwng y ddau ddyffryn – a darganfod dau farciwr carreg a oedd wedi hanner eu claddu wrth i'r llwybr ymdroelli i lawr tuag at Afon Lledr.

Ar ôl cyflawni'r daith, roedd yn amlwg mai'r hen ffordd hon (ac mae rhai ffyrdd felly'n filoedd o flynyddoedd oed) yn wir oedd y llwybr cyflymaf a mwyaf rhesymegol i groesi'r dirwedd arbennig honno. Ni chafodd ei hawdurdodi erioed ar gyfer ei defnyddio gan foduron, ac fe suddodd yn dawel o'r golwg – yn llythrennol mewn mannau, diolch i'r nenfwd drwchus o gonwydd. Mae ei cherdded eto'n teimlo fel ailddarganfod y darn yna o dir ac fel dod i gyswllt â'r rhai a'i defnyddiai'n rheolaidd mor bell yn ôl. Ni chloddiwyd unrhyw dwneli nac adeiladu unrhyw bontydd i greu'r ffordd hon – canrifoedd o gerdded a'i ffurfiodd.

Wrth edrych ar lwybr o A i B ar-lein, mae'n ddiddorol cymharu'r amcangyfrifon o'r amser a gymer y daith yn dibynnu ar y dull teithio. Mae'n ymddangos bod y daith o oddeutu 30 milltir o Bwllheli i Fangor yn cymryd tua 46 munud wrth yrru, dwy awr ac ugain munud ar drafnidiaeth gyhoeddus, tair awr ar feic a thros naw awr a hanner i'w cherdded. Gan mlynedd yn ôl a mwy, byddai llawer o weithwyr amaethyddol a diwydiannol, yn ogystal â phlant ysgol, yn arfer cerdded yr hyn y byddem ninnau'n eu hystyried yn bellterau rhyfeddol yn feunyddiol. Ganol Oes Fictoria, byddai papurau newydd yn aml yn cynnwys straeon am berygl 'gwallgofrwydd y rheilffordd' (fersiwn cynnar o'r cythraul gyrru?) a achosid drwy deithio mewn cerbydau herclyd ar gyflymderau mor arswydus â thrigain milltir yr awr.

Un o brif themâu pererindota yw bod y daith yn bwysig yn ogystal â'r gyrchfan. Wrth deithio ar droed, ddydd ar ôl dydd, mae pererinion ar y Camino i Santiago de Compostela yn sôn am ganfod gwirioneddau ynghylch eu hunain a'u bywydau drwy'u profiadau ar y ffordd. Cyrraedd pen y daith yw prif ddiben y bererindod ond canfyddir llawer o'r ystyr ar y ffordd. Po gyflymaf y daith, gellir dadlau, po leiaf yw'r amser i ganfod yr ystyr – a gall rhythm taith y pererin fynd ar goll yn anniddigrwydd y teithiwr, sydd ar binnau i'r bws neu'r bws mini gyrraedd yr arhosfan nesaf ar y daith.

Mae yna berygl, wrth gwrs, mewn rhamantu am fyd a symudai ar gyflymder cerdded. Mewn llawer gormod o leoedd yn y byd hyd heddiw mae pobl yn parhau i farw oherwydd nad oes ffordd gyflym o gyrraedd ysbyty. Mae'r rhai sy'n rhy ifanc neu'n rhy hen i gerdded pellteroedd

pass between the two valleys – and a discovery of half-buried stone markers as the path wound down to the river Lledr.

Once completed, it was clear that this old way (and some ancient trackways date back thousands of years) was in fact the quickest and most logical way to cross that particular stretch of landscape. Never designated suitable for motor vehicles, it has quietly sunk into obscurity – literally in places, thanks to the blanketing conifers. Walking it again feels like a rediscovery of that bit of landscape as well as a link with those who used it regularly so many years before. No tunnels were bored nor bridges constructed in the making of that road – it was shaped by centuries of footfall.
Checking out an A to B route online, it's interesting to compare the estimated times depending on mode of travel. The journey of around 30 miles from Pwllheli to Bangor apparently takes 46 minutes to drive, two hours and 20 minutes by public transport, three hours to cycle, and over nine and a half hours to walk. A hundred years ago and more, workers in many sectors of agriculture and industry, as well as schoolchildren, routinely walked what we would consider astonishing daily distances. Mid-Victorian newspapers regularly ran stories about the risk of 'railway madness' (an early version of road rage?) brought about by travelling in jolting carriages at such reckless speeds as 60mph.

One of the core themes of pilgrimage is the importance of the journey as well as the destination. Travelling on foot, day after day, pilgrims on the Camino to Santiago de Compostela speak of discovering truths about themselves and their lives through their experiences en route. Reaching the end of the route is the overall purpose of the pilgrimage but much of the meaning is found along the way. The faster the journey, arguably the less time to find the meaning – and the rhythm of a pilgrim walk can end up lost in the restlessness of a traveller, impatient for their coach or minibus to reach the next stop on the tour.

There is a danger, of course, in idealising a world that moved at walking pace. In too many parts of the globe today, people still die through lack of swift transport to hospital. Those too young or too old to manage long distances on foot end up isolated and denied all kinds of opportunities for education and flourishing; 'local' can mean 'limited'. Reliable transport connections are vital for a strong and resilient economy, offering people the chance of travelling further afield for employment without having to leave their home area.

maith yn byw'n ynysig ac yn colli pob mathau o gyfleoedd i ddysgu a ffynnu; gall 'lleol' ddod i olygu 'cyfyngedig'. Mae cysylltiadau cludiant dibynadwy'n hollbwysig ar gyfer cynnal economi gref a chadarn, gan gynnig cyfleoedd i bobl deithio ymhellach i weithio heb orfod gadael eu cynefin.

## *Llwybr y lliaws*

Mae i ffyrdd troellog cefn gwlad eu hud – ond does dim byd yn union fel croesi Pont Britannia a mynd ymlaen am Gaergybi ar y darn diweddaraf o'r A55 i'w chwblhau. Cynlluniwyd y ffordd ddeuol i'w gwneud yn haws i gludo nwyddau rhwng y porthladd a gweddill y Deyrnas Unedig a dyma'r peth agosaf sydd gan Ogledd Cymru i drafford. Mae'n cynnig ffordd gyflym braf o deithio – os na fydd gormod o waith ffordd. Wrth deithio'r ffordd arall, tua Bangor, mae copaon Eryri'n teyrnasu ar y gorwel mewn ffordd hyfryd o ddramatig – gan hyd yn oed wneud adegau o oedi rywfaint yn haws eu goddef.

Ar yr un pryd, mae'r A55 yn rhannu'r ynys yn bendant mewn ffordd nad oedd yn wir am yr hen A5. Roedd campwaith Thomas Telford, a gwblhawyd gyda Phont y Borth ym 1826, yn caniatáu i goetsis a'r post deithio'n gyflym hyd at y llongau i Ddulyn, ond cysylltu cymunedau, yn hytrach na'u hosgoi, a wnâi llwybr y ffordd honno. Wrth i lefel y traffig gynyddu, roedd adeiladu ffyrdd osgoi'n gwella ansawdd bywyd mewn llawer o bentrefi ond yn aml byddai

## *A road much travelled*

Winding country lanes have their charms – but there's nothing quite like crossing the Britannia Bridge and heading up to Holyhead on the most recently completed stretch of the A55. Designed to ease the passage of freight from the port to the rest of the UK, the dual carriageway is the closest North Wales comes to a motorway and is (depending on roadworks) a satisfyingly swift journey. Coming the other way, towards Bangor, the Eryri mountainscape dominates the horizon in a pleasingly dramatic way, so that even hold-ups can seem a bit more bearable.

At the same time, the A55 emphatically divides the island in a way that the old A5 did not. Thomas Telford's engineering masterpiece, completed with the Menai Bridge in 1826, allowed mail and stagecoaches to make a fast journey to the Dublin crossing, but communities were still joined, rather than bypassed, by the route. As traffic increased, new road schemes improved the quality of life for many villages but loss of footfall for local businesses was often the result. Thanks to the A55, though, employment

*Yr A55 dros Bont Britannia*
*The A55 over Britannia Bridge*



busnesau lleol yn colli cwsmeriaid o ganlyniad. Diolch i'r A55, fodd bynnag, mae cyfleoedd gwaith yn denu o fannau mor bell â Phenrhyn Cilgwri, er y gall y cymudo dyddiol fod yn feichus. Mae'n bosibl manteisio ar y prisiau tai cymharol fforddiadwy yn Llanfair Pwllgwyngyll, er enghraifft, a gweithio mewn amrywiaeth o feysydd yn Swydd Gaer, yn dibynnu ar natur eich sgiliau.

Mae'r motor tanio mewnol, yn ogystal â'r diwydiant olew, wedi trawsnewid bywyd a thirwedd yn sylfaenol ar bob lefel. Mae'r gwythiennau a ddarperir ar gyfer bywyd cyfoes gan ffyrdd megis yr A55 – a system drefniadaeth y byd cyfan – yn sylfaenol bwysig ar gyfer y ffordd mae cymdeithas yn y Deyrnas Unedig yn gweithredu. Yn drychinebus, hefyd, maent wedi hwyluso lledaeniad COVID-19 ar gyflymder na fyddai cenedlaethau blaenorol wedi gallu ei ddychmygu.

Un o rwystredigaethau mawr wythnosau'r cyfnod clo dan warchae'r pandemig yn ystod y gwanwyn oedd y gwaharddiad ar deithio nad oedd yn gwbl angenrheidiol, a olygai fod llawer o bobl wedi'u hynysu'n gorfforol oddi wrth eu ceraint ymhell ac agos. Roedd yn annifyr, yn sioc hyd yn oed, colli'r cyswllt hawdd, a hynny er gwaethaf y cyfleoedd a gynigid gan y cyfryngau cymdeithasol. Gellid symud cyfarfodydd gwaith ar-lein yn weddol hawdd ond daethant o'r herwydd yn achlysuron mwy gweithredol a llai cyfeillgar, gan golli cynhesrwydd cyfarfod wyneb yn wyneb. Peidiodd teithio â bod yn hawl beunyddiol a throi'n hytrach yn fraint.

Canlyniad uniongyrchol arall i'r cyfnod clo oedd y gostyngiad yn y traffig. Wedi'u caethiwo i'w cartrefi heblaw am un cyfnod o ymarfer y dydd, dechreuodd pobl ddod allan i gerdded ac fe'u gorfodwyd i ddechrau archwilio'r hyn oedd yng nghyffiniau eu cartrefi. Pan ddechreuwyd llacio'r cyfyngiadau, dechreuodd lefel y traffig godi eto, ond, ar-lein ac mewn mannau eraill, codwyd cwestiynau ynghylch dychwelyd yn awtomatig i 'fywyd fel y bu'. Ai dyma oedd ein cyfle i gymryd golwg newydd ar gyflymdra bywyd a'i ferw a'i frys? A oedd yna ddewisiadau gwell ar ein cyfer, rhai a fyddai'n fwy cynaliadwy ar gyfer corff ac enaid? A oedd y ffaith ein bod yn gallu teithio mor bell ac mor gyflym yn golygu mai dyna a ddylem ei wneud?

options beckon as far as the Wirral, although the daily commute can be gruelling. It's possible to enjoy the relatively affordable housing of LlanfairPG, for example, and still access a range of jobs in Cheshire, depending on your sphere of work.

The internal combustion engine, plus the petroleum industry, have radically transformed life and landscape at every level. The arteries for contemporary life provided by roads such as the A55 – and the global transport network as a whole – are fundamental to the way UK society operates. Devastatingly, they also helped to facilitate the spread of Covid-19 at a pace unimaginable to previous generations.

One of the great frustrations of the spring lockdown weeks during the pandemic was the ban on non-essential journeys, which meant many people were physically cut-off from loved ones near and far. It was disconcerting, even shocking, to find easy connection severed, despite the opportunities offered by social media. Work meetings could shift online relatively easily but as a result end up more functional than friendly, lacking the conviviality of face to face encounter. Travel ceased being an everyday right and became a privilege.

Another immediate consequence of lockdown was the reduction in traffic. Confined to the home apart from one daily spell of exercise, people started emerging on foot and were obliged to start exploring what lay just beyond their door-steps. When restrictions began to ease, traffic began increasing again, but online and elsewhere, questions were raised about automatically returning to 'the way things were'. Was this a chance to take a fresh look at the pace of life in all its 'expressway energy'? Were there better choices to make, ones more sustainable for body and soul? Just because we could travel so far and so fast, did that mean we should?

## Testunau o'r Beibl

> *Llais un yn galw, "Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd, unionwch yn y diffeithwch brifordd i'n Duw ni. Caiff pob pant ei godi, pob mynydd a bryn ei ostwng; gwneir y tir ysgythrog yn llyfn, a'r tir anwastad*

## Bible passages

> *A voice cries out: 'In the wilderness prepare the way of the Lord, make straight in the desert a highway for our God. Every valley shall be lifted up, and every mountain and hill be made low; the uneven ground shall*

*yn wastadedd. Datguddir gogoniant yr Arglwydd, a phawb ynghyd yn ei weld. Genau'r Arglwydd a lefarodd." Llais un yn dweud, "Galw"; a daw'r ateb, "Beth a alwaf? Y mae pob un meidrol fel glaswellt, a'i holl nerth fel blodeuyn y maes. Y mae'r glaswellt yn crino, a'r blodeuyn yn gwywo pan chwyth anadl yr Arglwydd arno. Yn wir, glaswellt yw'r bobl. Y mae'r glaswellt yn crino, a'r blodeuyn yn gwywo; ond y mae gair ein Duw ni yn sefyll hyd byth." Dring i fynydd uchel; ti, Seion, sy'n cyhoeddi newyddion da, cod dy lais yn gryf; ti, Jerwsalem, sy'n cyhoeddi newyddion da, gwaedda, paid ag ofni. Dywed wrth ddinasoedd Jwda, "Dyma eich Duw chwi." Wele'r Arglwydd Dduw yn dod mewn nerth, yn rheoli â'i fraich. Wele, y mae ei wobr ganddo, a'i dâl gydag ef. Y mae'n porthi ei braidd fel bugail, ac â'i fraich yn eu casglu ynghyd; y mae'n cludo'r ŵyn yn ei gôl, ac yn coleddu'r mamogiaid.*

***Eseia 40:3-11***

*Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw. Fel y mae'n ysgrifenedig yn y proffwyd Eseia: "Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen i baratoi dy ffordd. Llais un yn galw yn yr anialwch, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo'"—ymddangosodd Ioan Fedyddiwr yn yr anialwch, yn cyhoeddi bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau. Ac yr oedd holl wlad Jwdea, a holl drigolion Jerwsalem, yn mynd allan ato, ac yn cael eu bedyddio ganddo yn afon Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau. Yr oedd Ioan wedi ei wisgo mewn dillad o flew camel a gwregys o groen am ei ganol, a locustiaid a mêl gwyllt oedd ei fwyd. A dyma'i genadwri: "Y mae un cryfach na mi yn dod ar f'ôl i. Nid wyf fi'n deilwng i blygu a datod carrai ei sandalau ef. Â dŵr y bedyddiais i chwi, ond â'r Ysbryd Glân y bydd ef yn eich bedyddio."*

*Yn y dyddiau hynny daeth Iesu o Nasareth Galilea, a bedyddiwyd ef yn afon Iorddonen gan Ioan. Ac yna, wrth iddo godi allan o'r dŵr, gwelodd y nefoedd yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd fel colomen yn disgyn arno. A daeth llais o'r nefoedd: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu."*

***Marc 1:1-11***

Mae drama Eseia 40:3 wedi ysbrydoli cyfansoddiadau mor amrywiol â Meseia Handel a Godspell. Mae'r 'llais' dirgel yn galw am ddechrau ar waith enfawr adeiladu priffordd i Dduw ddychwelyd at ei bobl. Cynigir gobaith i genedl a gollasai ymron popeth – cartrefi, tir, y Deml. Ac roedd ei meistri ym Mabilon hyd yn

*become level, and the rough places a plain. Then the glory of the Lord shall be revealed, and all people shall see it together, for the mouth of the Lord has spoken.' A voice says, 'Cry out!' And I said, 'What shall I cry?' All people are grass, their constancy is like the flower of the field. The grass withers, the flower fades, when the breath of the Lord blows upon it; surely the people are grass. The grass withers, the flower fades; but the word of our God will stand for ever. Get you up to a high mountain, O Zion, herald of good tidings; lift up your voice with strength, O Jerusalem, herald of good tidings, lift it up, do not fear; say to the cities of Judah, 'Here is your God!' See, the Lord God comes with might, and his arm rules for him; his reward is with him, and his recompense before him. He will feed his flock like a shepherd; he will gather the lambs in his arms, and carry them in his bosom, and gently lead the mother sheep.*

***Isaiah 40:3-11***

*The beginning of the good news of Jesus Christ, the Son of God. As it is written in the prophet Isaiah, 'See, I am sending my messenger ahead of you, who will prepare your way; the voice of one crying out in the wilderness: "Prepare the way of the Lord, make his paths straight"', John the baptizer appeared in the wilderness, proclaiming a baptism of repentance for the forgiveness of sins. And people from the whole Judean countryside and all the people of Jerusalem were going out to him, and were baptized by him in the river Jordan, confessing their sins. Now John was clothed with camel's hair, with a leather belt around his waist, and he ate locusts and wild honey. He proclaimed, 'The one who is more powerful than I is coming after me; I am not worthy to stoop down and untie the thong of his sandals. I have baptized you with water; but he will baptize you with the Holy Spirit.'*

***Mark 1:1-11***

The drama of Isaiah 40:3 has inspired compositions as diverse as Handel's Messiah and Godspell. The mysterious 'voice' calls for a major road-building programme to begin, making a way for God to come back to his people. Hope is held out to a nation that had lost almost everything – homes, land, temple, even their personal names changed by their Babylonian masters (as happened to Daniel and his friends). The prophet Ezekiel (chapter 10) presented a chilling vision of God's glory departing from the temple but now the people

oed wedi newid eu henwau personol (megis yn achos Daniel a'i gyfeillion). Cyflwynodd y proffwyd Eseciel (pennod 10) weledigaeth arswydus o ogoniant Duw yn gadael y Deml, ond yma gelwir ar y bobl i baratoi iddo ddychwelyd.

Mae paratoi'n waith caled – mae'n hawdd darllen am 'godi pob pant' a 'gwneud tir anwastad yn wastadedd' a meddwl am lu o jacs codi baw a chraeniau. Ond y dyddiau hynny byddai gwaith cloddio wedi golygu torf yn gweithio gyda chaib a rhaw, awr ar ôl awr dan haul crasboeth. Efallai nad yw'n syndod bod yr adnodau nesaf yn sôn am freuder bodau dynol – 'Yn wir, glaswellt yw'r bobl'. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw y paratoir y 'ffordd', hynny yw, bod calonnau a meddyliau'n agored ac yn ddisgwylgar yn wyneb dyfodiad yr Arglwydd.

Mae yna gyferbyniad hardd rhwng y darluniau hynny o lafur caled ac ymddangosiad 'yr Arglwydd Dduw'. Mae'n wir ei fod yn dod 'mewn nerth' (adnod 10) gan 'reoli â'i fraich', ond nid rhyw fod dwyfol tanllyd mohono, yn difa popeth o'i flaen. Disgrifir y Goruchaf Dduw fel bugail caredig (adnod 11), yn casglu yn ei freichiau ac yn arwain yn dyner yr ifanc, y llesg a'r bregus.

Mae awduron yr Efengylau'n adleisio Eseia 40 yn eglur wrth iddynt geisio'r geiriau i ddisgrifio dyfodiad Ioan Fedyddiwr. Dyma gymeriad o'r Beibl y telir sylw arbennig iddo yn draddodiadol yn ystod yr Adfent, ac mae'n llamu i'r llwyfan ym mhennod gyntaf Efengyl Marc, yn llythrennol fel 'llais... yn galw yn yr anialwch'. Roedd ei wisg yn frawychus a'i fwyd yn brin; ac roedd ei neges yn un hynod blaen (yn enwedig yn y testun cyfatebol ym Matthew pennod 3).

Nid neges newydd sbon oedd pregeth Ioan ynghylch 'bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau' ond galwad i bobl gysegru eu hunain i ymroddiad dyfnach. Roedd angen iddynt gydnabod eu cyflwr pechadurus a'u hangen am faddeuant, ond hyd yn oed wrth iddo eu bedyddio, cyhoeddai bod un arall i ddod, 'un cryfach na mi' (adnod 7) a ddeuai â bedydd a fyddai'n golygu nid plymio i ddyfroedd Afon Iorddonen ond i graidd y Duwdod ei hun.

Wrth iddo gyhoeddi ei neges yng nghrinder cefn gwlad Jwdea, roedd gwaith proffwydol Ioan yn canolbwyntio ar baratoi'r bobl ar gyfer dyfodiad y Meseia. Yn rhyfeddol, gwelwyd mai'r Un a ddisgwylid oedd ei berthynas ef ei hun, Iesu o Nasareth (adnod 9). Nid yw Efengyl Marc yn adrodd hanes geni Iesu, ond mae'r disgrifiad o'i fedydd yn atseinio gwefr yr ymgnawdoliad: mae'r nefoedd yn 'rhwygo'n agored' ac mae'r Ysbryd yn disgyn ar y dyn ifanc hwn, y mae'r

are called to make ready for his return.

That work of preparation is arduous – it's easy to read about 'raising up valleys' and 'levelling rough ground' and envisage a host of JCBs and cranes. Earthworks at that time meant a crowd wielding hoes and mattocks, hour after hour in the blazing sun. Perhaps it is not surprising that the next verses speak of human frailty – 'surely the people are grass'. What is important, though, is that the 'way' is prepared, meaning that hearts and minds are open and receptive to the Lord's coming.

There is a beautiful contrast between those images of hard labour and the appearance of the 'Sovereign Lord'. Yes, he comes 'with power' (v. 10), ruling 'with a mighty arm' but this is no fiery deity, scorching all before him. The Most High God is described as a kindly shepherd (v.11), lifting in his arms and gently leading the young, the tired and the vulnerable.

Isaiah 40 is directly echoed by the gospel-writers as they seek words to describe the coming of John the Baptist. One of the Bible characters traditionally in focus during Advent, he bursts onto the scene in Mark 1, literally 'a voice... calling in the wilderness'. His outfit was alarming; his diet spartan; his message blunt in the extreme (especially in the parallel passage in Matthew 3).

John's preaching of a 'baptism of repentance for the forgiveness of sins' was not a brand new message but a call for people to pledge themselves to deeper commitment. They needed to acknowledge their sinful state and their need of forgiveness, but even as he baptised them, he spoke of one to come, 'more powerful than I' (v. 7) who would bring a baptism that meant plunging not into the waters of the river Jordan but into God's very Self.

As he cried out in the dry Judean countryside, John's prophetic work centred on making the people ready for the coming of the Messiah. Astonishingly, the long-awaited One turned out to be his own relative, Jesus of Nazareth (v.9). Mark's Gospel does not tell the story of Jesus' birth but the description of his baptism resonates with the shock of the incarnation: heaven is 'torn open' and the Spirit descends on this young man, with whom the Lord Almighty is 'well pleased' (vv. 10 – 11). Here is the one in whom the glory of eternity will blaze but who will also prove to be the good shepherd, bringing his people home.

Arglwydd Hollalluog yn 'ymhyfrydu' ynddo (adnodau 10 – 11). Dyma'r un y bydd gogoniant tragwyddoldeb yn llosgi ynddo, ond ef hefyd fydd y bugail da a fydd yn tywys ei bobl adref.

## Paratoi ein hunain ar gyfer y Brenin sy'n dod

Mae'r gorchymyn 'Paratowch ffordd yr Arglwydd' yn ganolog i dymor yr Adfent. Gan ei bod mor hawdd i'r paratoi ymarferol ar gyfer y Nadolig oddiweddyd paratoi'r galon a'r meddwl, mae'n werth cofio'r darlun yn Eseia Pennod 40 o'r llafurio dygn i adeiladu'r briffordd ar gyfer y Brenin sydd i ddod. Ni ymddangosodd y ffordd yn hudol ohoni ei hun ond bu raid ei hadeiladu, a hynny o dan amodau anodd hefyd.

Galwai Ioan ar bobl i ailsefydlu blaenoriaethau cysegredig, i gydnabod lle roedd eu bywydau wedi mynd ar gyfeiliorn, ac i ymostwng i'r weithred ddefodol o olchi ymaith eu camweddau. Rhaid fyddai iddynt fod yn y cyflwr iawn, mewn termau emosiynol ac ysbrydol, i groesawu Eneiniog Duw. Mae wythnosau'r Adfent yn cynnig i ni gyfle i baratoi ein hunain ar gyfer dathlu'r Nadolig, gan weddïo y byddwn yn amgyffred o'r newydd ddirgelwch a dychryn yr ymgnawdoliad. Gallwn hefyd ddefnyddio'r wythnosau hyn i gloriannu ein bywydau ac i asesu ein blaenoriaethau ninnau wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn.

Gallwn holi'n hunain a ydym yn byw ormod yn 'yn y lôn gyflym' yn rhuthro o un ymrwymiad i'r llall, efallai gan fod mewn perygl o adael y ffordd yn llwyr ar adegau. Efallai ein bod yn teithio mor bell ac mor gyflym fel nad ydym byth yn ffurfio'r cysylltiadau dynol hynny y mae arnom eu hangen i gynnal perthynas, boed hynny yn ein bywydau personol neu ym maes gwaith. Efallai fod y ffordd rydym yn teithio arni angen gwaith atgyweirio sylweddol er mwyn rhwystro damwain ddifrifol rhag digwydd.

Gallwn hefyd herio'n hunain a ydym, wir, mewn rhigol gysurus, yn teithio ar hyd yr un llwybr i'r un cyfeiriad ac i'r un gyrchfan, heb fyth godi'n llygaid i weld a yw Duw yn ein gwahodd i deithio ar hyd ryw ffordd arall gydag ef. Efallai bydd bywyd yn ein gorfodi i oedi am ennyd, ymlonyddu a disgwyl am yr alwad i ddechrau eto ar ein taith. Drachefn, efallai os chwiliwn ein calonnau byddwn yn ailddarganfod hen lwybrau hanner anghofiedig a'n harweiniai unwaith at Dduw. Gall y ffyrdd hynny ein synnu wrth i ni eu dwyn i gof, ond efallai gallwn eu troedio eto i ddod â ni'n agosach at Deyrnas Dduw, gan ein paratoi i gyfarfod y Gwaredwr sy'n dod.

## Preparing ourselves for the coming King

The call to 'prepare the way for the Lord' is fundamental to the season of Advent. Given how easy it is for practical preparation for Christmas to overrun preparation of heart and mind, it is worth remembering Isaiah 40's image of sustained labour to build the highway for the coming King. The road did not magically appear on its own but had to be made, and in adverse conditions too.

John's call was for people to re-establish holy priorities, recognise where life had gone off-course, and submit to the ritual act of washing away wrongdoing. They had to be in the right place, emotionally and spiritually speaking, to receive God's Anointed One. The weeks of Advent offer an opportunity to prepare ourselves for the celebration of Christmas, praying that we connect afresh with the mystery and awe of the incarnation. We can also use these weeks to re-examine our lives and assess our own priorities, as we approach the turn of the year.

We can ask ourselves whether we are too much 'in the fast lane', hurtling from one commitment to another, perhaps at risk of leaving the road altogether at times. Maybe we travel so far and so fast that we never make the human connections we need to sustain relationships, whether in the personal or work sphere of life. Maybe the road on which we travel is in serious need of repair to prevent a serious accident.

We can also challenge ourselves as to whether we are actually in a comfortable rut, travelling the same route in the same direction to the same destination, and never lifting our eyes to see whether God is beckoning us to go another way with him. It could be that life forces us to halt for a while, take a breath and wait for the call to begin our journey again. Then again, maybe if we search our hearts, we will rediscover old, half-forgotten paths that once led us to God. These ways may surprise us as we recall them, but perhaps we can use them again to bring us closer to God's kingdom, preparing us to meet the coming Saviour.

## Colect

*Hollalluog Dduw, a anfonaist dy unig Fab i ddangos i ni wir lwybr bywyd, caniatâ y bydd i ni yn ystod tymor yr Adfent eleni baratoi i groesawu ei ddyfodiad. Gan gydnabod ein methiannau a'n ffaeleddau personol, a chan ymgysegru o'r newydd i rannu yn nhaith ffydd, bydded i ni ailddarganfod gyda'r Eglwys ledled y byd y llwybrau sy'n arwain i'th Deyrnas Sanctaidd. Trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw yn awr ac am byth. Amen.*

## Collect

*Almighty God, who sent your only Son to show us the true path of life. Grant that at this Advent tide we may prepare to welcome His coming. Acknowledging our individual failures and shortcomings, and pledging ourselves anew to share in the journey of faith, that with the Church throughout the world we may rediscover the paths that lead to your Holy Kingdom. Through Jesus Christ our Lord, who lives and reigns with you and the Holy Spirit, one God now and for ever. Amen.*

## Cwestiynau

***Disgrifiwch eich hoff daith – pam mae hi'n arbennig i chi?***

***Beth tybed fyddai Ioan Fedyddiwr yn ei ddweud wrthych chi wrth eich Ardal Gweinidogaeth heddiw?***

***Ar ba fath o lwybr ydych chi a'ch eglwys yn teithio arno ar hyn o bryd – yn y ffrwd gyflym ynteu mewn rhigol?***

***Beth mae'n ei olygu i gadw'r Adfent yn dda?***

## Questions

***Describe your favourite journey – why is it special for you?***

***What might John the Baptist say to you and your Ministry Area today?***

***What sort of road are you and your church travelling at the moment – in the fast lane or in a rut?***

***What does it mean to keep Advent well?***

*Defaid Penmachno | The sheep of Penmachno*



# 2

# Afonydd ac Argaeau
# Rivers and Reservoirs




*Cerrig beddau Capel Celyn | The gravestones of Capel Celyn*

## Cofio'r hyn a gollwyd

Ym 1965, boddwyd cwm yng Nghymru er mwyn darparu dŵr ar gyfer dinas Lerpwl tua deugain milltir i'r gogledd-ddwyrain. Mwy na hanner can mlynedd yn ddiweddarach, prin yw'r digwyddiadau yn hanes diweddar Cymru (ac eithrio trychineb Aber-fan) sy'n parhau i liwio'n hymdeimlad o'n bywyd a'n hunaniaeth fel cenedl â 'Thryweryn'. I lawer o bobl, mae'r enw ynddo'i hun yn ddigon i wneud yr hanes yn fyw eto.

Ym 1960, roedd Cyngor Dinas Lerpwl wedi cyflwyno mesur preifat gerbron Senedd San Steffan a fyddai'n gorfodi trigolion Capel Celyn i adael y cwm. Byddai'r pentref, y fynwent, y ffermydd, y swyddfa bost, y ffyrdd a'r caeau

## Remembering what was lost

In 1965, a Welsh valley was flooded to provide water for the city of Liverpool some 40 miles to the north east. More than 50 years later, there are few incidents in the recent history of Wales (with the exception of the Aberfan disaster) which continues to shape a sense of national identity and life as does 'Tryweryn'. For many people, the name alone is enough to evoke the story.

In 1960, Liverpool City Council had presented a private bill to Parliament that would force the residents of Capel Celyn to leave the valley. The

oll yn cael eu boddi i greu cronfa Llyn Celyn. Roedd defnyddio mesur preifat yn hynod anarferol ond roedd yn ffordd o osgoi'r angen am ymchwiliad cynllunio neu ymyrraeth gan yr awdurdod lleol. Pan roddwyd y mesur gerbron y Senedd, pleidleisiodd 35 allan o'r 36 o'r Aelodau Seneddol dros etholaethau Cymru yn ei erbyn. Ni rwystrodd hynny'r mesur rhag cael ei gymeradwyo ac yn y pen draw dinistriwyd deuddeg o dai a ffermydd a symudwyd 67 o bobl a drigai yn y cwm, er gwaethaf cyfnod hir o ymgyrchu mewn gwrthwynebiad i'r boddi.

Yn 2005, ymddiheurodd dinas Lerpwl am ei gweithredoedd. Roedd y datganiad yn cydnabod dyled y ddinas i'r miloedd o Gymry a ymgartrefodd yno ac a gyfoethogodd ei bywyd. Dywedwyd ymhellach: 'Rydym yn ymwybodol o'r loes a achoswyd ddeugain mlynedd yn ôl pan drawsnewidiwyd dyffryn Tryweryn yn gronfa i gynorthwyo i ddiwallu anghenion Lerpwl am ddŵr... Ymddiheurwn am unrhyw ddiffyg sensitifrwydd ar ran y cyngor a fodolai ar y pryd a gobeithiwn y gellir adfer yn llwyr y berthynas hanesyddol a chadarn rhwng Lerpwl a Chymru. Mae pobl yn gofyn pam rydym yn ymddiheuro nawr. Mae ymddiheuro i gyfaill yn beth addas i'w wneud, mae'n rhan o gymodi ... o gydnabod bod camgymeriadau wedi'u gwneud.'

Ymateb cymysg fu i'r ymddiheuriad ar y pryd. Ystyrid ei fod wedi dod yn rhy hwyr a theimlai rhai ei fod ond yn rhwbio halen yn y briw. Credai eraill fod yma gydnabod dilys bod camwedd wedi ei gyflawni, a hynny drwy gyfrwystra, ac na ddylid esgeuluso camwri hanesyddol o'r fath.


Mae amgylchiadau creu Llyn Celyn yn gymhleth ac wedi dod fwy i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf gydag ymdrechion i warchod statws eiconig y cwm a'i hanes. Er ei bod yn wir i lawer o Gymry elwa ar gyfleoedd yn Lerpwl, fe enynnodd y ffordd y gwnaed y penderfyniad, yn ogystal â'r penderfyniad ei hun, elyniaeth ddofn a hirhoedlog yng nghalonnau llawer o Gymru. Cymuned drwyadl Gymraeg ei hiaith oedd Capel Celyn gyda diwylliant ffyniannus, ac fe'i dinistriwyd gan drefn lywodraethol San Steffan na hidiai o gwbl am na diwylliant na iaith y cwm. Ymddangosai'r weithred yn waeth na dirmygus, yn ddinistrio bwriadol yn wir, pan mai'r hyn oedd ei angen ar y pryd oedd gwarchod a diogelu.

village, its cemetery, primary school, farms, post office, roads and fields would all be flooded to create the reservoir Llyn Celyn. Using a private bill was highly unusual but it avoided the need for any kind of planning enquiry or local authority involvement. When the bill was finally presented in Parliament, 35 out of the 36 Welsh MPs voted against it. That did not prevent the bill from being passed in 1962 and eventually the 12 houses and farms were destroyed and 67 people who lived in the valley relocated, despite a sustained period of campaign and opposition to the flooding.

In 2005 the city of Liverpool offered an apology for its actions. The statement acknowledged a debt to the thousands of Welsh people who had made their homes in the city and enriched its life. It went on: 'We realise the hurt of 40 years ago when the Tryweryn valley was transformed into a reservoir to help meet the water needs of Liverpool... For any insensitivity by our predecessor council at the time, we apologise and hope that the historic and sound relationship between Liverpool and Wales can be completely restored. People ask why apologize now. Saying sorry is an appropriate thing to do to a friend, it is part of reconciliation... a recognition that mistakes were made.'

The apology received a mixed response at the time, being regarded as too late and seen by some as adding insult to injury. For others it was a genuine acknowledgement that wrong had been committed (and by a sleight of hand) and that no such historic wrong should be left unaddressed.

The issues surrounding the creation of Llyn Celyn are complex and have become more significant in recent years as efforts have focused on maintaining the iconic status of the valley and its history. While it is true that many Welsh people benefitted from opportunities in Liverpool, the manner of making the decision, as well as the decision itself, produced deep and lasting hostility in the hearts of many Welsh people. Capel Celyn was overwhelmingly a Welsh-speaking community with a vibrant culture whose existence was ended by a Westminster system that had regard neither for the culture nor the language of the valley. It appeared less an act of disdain so much as deliberate sabotage when what was needed at that time was protection and support.




*Tarddiad yr Hafren | The source of the Severn*

## Gwybod beth sy'n ein clymu ynghyd

Afon Hafren yw'r afon hiraf ym Mhrydain. Mae'n 220 milltir o hyd ac yn cludo mwy o ddŵr nag unrhyw afon arall yng Nghymru a Lloegr. Mae'n tarddu ar uchder o 610 metr yn y corsydd mawn cyfoethog ger Pumlumon yng Nghanolbarth Cymru ac yn llifo tuag at Fôr Hafren gyda'i haber ger Pontydd Hafren. Rheolir llif yr afon yn agos at ei tharddiad gan Gronfa Clywedog, sy'n lleddfu rywfaint ar beryglon llifogydd ymhellach i lawr yr afon. Yr argae bwtresi concrid yno yw'r argae concrid uchaf yn y DU, yn 72 metr o uchder a 230 metr o hyd.

Enynnodd adeiladu'r gronfa hon, fel creu Llyn Celyn ei hun, wrthwynebiad a phrotestio adeg pasio'r Ddeddf Seneddol a dechrau ar y gwaith adeiladu, er bod llai o brotestio o lawer nag yn achos Tryweryn. Serch hynny, collwyd tir amaethyddol, ffermydd a thyddynnod er mwyn creu'r gronfa.

Daw'r enw Saesneg 'Severn' o'r Lladin 'Sabrina' ac er gwaethaf ei dechreuadau digon dinod ar y ffin rhwng Powys a Cheredigion, mae digonedd o symboliaeth a chwedloniaeth yn gysylltiedig â'r afon. Mae Sieffre o Fynwy, yn ei 'Historia Regum Britanniae' (Hanes Brenhinoedd Prydain, cyfansoddwyd oddeutu 1138), yn adrodd hanes 'Habren', merch brydferth Locrinus, Brenin y Brythoniaid, a'i gariad gudd, tywysoges Germanaidd o'r enw Estrildis.

Daeth priodas wleidyddol Locrinus â Gwendolen, merch Corineus, Brenin Cernyw, i ben pan fu farw Corineus, gyda Locrinus yn ysgaru Gwendolen a gwneud Estrildis yn frenhines, gan felly gyfreithloni Habren. Cynullodd Gwendolen fyddin o Gernyw yn ei erbyn a gorchymyn boddi Estrildis a Habren yn Afon Hafren. Enwyd yr afon ar ôl Habren ('Hafren' mewn Cymraeg

## Knowing what binds us together

The Severn is the longest river in Great Britain at 220 miles and carries more water than any other in England and Wales. With its source at 610 metres in the rich peat bogs near Plynlimon in mid-Wales, it flows down towards the Bristol Channel, finally disgorging into the estuary near the Severn bridges. The river is regulated close to its source by the impressive Clywedog Reservoir which mitigates some of the dangers of flooding further downstream. Its concrete buttress dam is the tallest concrete dam in the UK, with a height of 72 metres and a length of 230 metres.

The building of this reservoir, like Llyn Celyn, caused opposition and protest when the Act of Parliament was passed and construction begun although these protests were significantly less than those of Tryweryn. Nonetheless, agricultural land, farms and homesteads were all lost in order to make way for the dam.

The English name 'Severn' is derived from the Latin 'Sabrina' and despite its modest origins on the Powys-Ceredigion border, the river is rich in symbolism and legend. Geoffrey of Monmouth tells the tale ('Historia Regum Britanniae' - History of the Kings of Britain, c. 1138) of 'Habren' who was the beautiful daughter of King Locrin of the Britons by his secret lover, a Germanic princess named Estrildis.

Locrin's political marriage to Gwendolen, the daughter of King Corineus of Cornwall, ceased upon the death of Corineus when Locrin divorced her and made Estrildis his queen—and so legitimized Habren. Gwendolen raised a Cornish army against him and had Estrildis and Habren drowned in the Severn. The river took its name from the Latin for

diweddar) i goffáu anffyddlondeb Locrinus am byth. Ond dywed y chwedloniaeth wrthym i Habren ddod yn dduwies y dyfroedd gan felly ddiddymu gweithred ddialgar Gwendolen eiddigus.

Pen draw taith Afon Hafren yw'r aber ger Bryste lle mae'r hyn a ddechreuodd fel bwrlwm tawel ffrwd fach oer yn ucheldir Pumlumon wedi tyfu'n llifeiriant enfawr i Fôr Iwerddon. Ar ei thaith hir mae'n llifo o'r bryniau uwchlaw Llanidloes i'r Drenewydd a'r Trallwng cyn troi tua'r de a'r ffin â Lloegr. Mae afonydd a nentydd eraill yn chwyddo ei llif wrth iddi ymdroelli tuag Amwythig, Bridgnorth, Caerwrangon, a Chaerloyw cyn cyrraedd Môr Hafren. Er nad Afon Hafren oedd yr unig gyswllt rhwng y cymunedau hyn, drwy'r canrifoedd fe greodd ffrwythlondeb dyffryn yr afon ar gyfer amaeth ynghyd â'r hwylustod i gludo nwyddau a phobl gyfoeth a masnach ffyniannus na fyddai wedi bodoli heblaw am yr afon.

## Testunau o'r Beibl

> *Dywedodd Iesu wrtho, " 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu."*

***Mathew 22:37-40***

> *Ger afonydd Babilon yr oeddem yn eistedd ac yn wylo wrth inni gofio am Seion. Ar yr helyg yno bu inni grogi ein telynau, oherwydd yno gofynnodd y rhai a'n caethiwai am gân, a'r rhai a'n hanrheithiai am ddifyrrwch. "Canwch inni," meddent, "rai o ganeuon Seion." Sut y medrwn ganu cân yr Arglwydd mewn tir estron?*
>
> *Os anghofiaf di, Jerwsalem, bydded fy neheulaw'n ddiffrwyth; bydded i'm tafod lynu wrth daflod fy ngenau os na chofiaf di, os na osodaf Jerwsalem yn uwch na'm llawenydd pennaf.*
>
> *O Arglwydd, dal yn erbyn pobl Edom ddydd gofid Jerwsalem, am iddynt ddweud, "I lawr â hi, i lawr â hi hyd at ei sylfeini." O ferch Babilon, a ddistrywir, gwyn ei fyd y sawl sy'n talu'n ôl i ti am y cyfan a wnaethost i ni. Gwyn ei fyd y sawl sy'n cipio dy blant ac yn eu dryllio yn erbyn y graig.*

***Salm 137***

Hafren (Sabrina) to mark Locrin's infidelity for all time. But legend tells us that Habren became a goddess of the waters thus defying the vengeful action of her jealous vanquisher.

The destination of the River Severn is at the estuary near Bristol, where the small steady bubbling of cold waters from the Cambrian Mountains issues in a huge flow into the Irish Sea. On its long journey it travels from the hills above Llanidloes to Newtown and Welshpool before it heads south towards the English border. Other tributaries swell its size as it snakes its way towards Shrewsbury, Bridgnorth, Worcester, Gloucester before its arrival at the Severn Estuary. Although these communities were not only connected by the Severn historically the fertility of the river valley for agriculture and the ability to transport goods and even people created a wealth and commerce that flourished and would not have existed but for the Severn.

## Bible passages

> *He said to him, '"You shall love the Lord your God with all your heart, and with all your soul, and with all your mind." This is the greatest and first commandment. And a second is like it: "You shall love your neighbour as yourself." On these two commandments hang all the law and the prophets.'*

***Matthew 22:37-40***

> *By the rivers of Babylon— there we sat down and there we wept when we remembered Zion. On the willows there we hung up our harps. For there our captors asked us for songs, and our tormentors asked for mirth, saying, 'Sing us one of the songs of Zion!' How could we sing the Lord's song in a foreign land?*
>
> *If I forget you, O Jerusalem, let my right hand wither! Let my tongue cling to the roof of my mouth, if I do not remember you, if I do not set Jerusalem above my highest joy.*
>
> *Remember, O Lord, against the Edomites the day of Jerusalem's fall, how they said, 'Tear it down! Tear it down! Down to its foundations!' O daughter Babylon, you devastator! Happy shall they be who pay you back what you have done to us!Happy shall they be who take your little ones and dash them against the rock!*

***Psalm 137***

Dysgai Iesu mai cariad oedd y gorchymyn cyntaf, sy'n cyfeirio ein cyfrifoldeb a'n hegni tuag at anghenion a buddiannau pobl eraill. Gallwn yn rhy hawdd dybio mai ymwneud yn bennaf â 'blaenoriaethau crefyddol' mae'r gorchymyn i garu Duw ac yna ein cymydog. Mae Teyrnas Dduw, fodd bynnag, yn gwbl berthnasol i faterion bywyd go iawn, bywyd beunyddiol. Rhaid i ystyriaethau cyfiawnder a maddeuant ymwneud â mwy na chyffes breifat neu litwrgi eglwysig.

Mae hanes Tryweryn yn ein sbarduno, fel Cristnogion, i ofyn cwestiynau ynghylch yr hyn sy'n creu hunaniaeth ond dylai hefyd beri i ni fyfyrio ynghylch sut y dylid ymateb i anghyfiawnder a chamwedd. Mae'n stori mor rymus oherwydd i weithred o drais gwleidyddol lwyddo, gyda'r 'cryf' yn tra-arglwyddiaethu ar y 'gwan', gan sicrhau y collwyd y lleisiau lleol, fel y cartrefi, yn ebargofiant y dyfroedd.

Mae profiad pobl Dduw o gael eu caethgludo o'u gwlad yn cynnig i ni olwg Beiblaidd ar agweddau ar rym a rheolaeth. Cafodd y bobl eu goresgyn a'u gorfodi i adleoli gan rymoedd ymerodraethol, a drylliwyd llawer iawn o'u hunaniaeth. Yn eu geiriau galarus, cawn gip ar ddwyster eu colled: 'Ger afonydd Babilon yr oeddem yn eistedd ac yn wylo wrth inni gofio am Seion. Ar yr helyg yno bu inni grogi ein telynau, oherwydd yno gofynnodd y rhai a'n caethiwai am gân, a'r rhai a'n hanrheithiai am ddifyrrwch. "Canwch inni," meddent, "rai o ganeuon Seion."' (Salm 137:1-3).

Wrth iddynt fyfyrio ynghylch eu sefyllfa, teimlent drallod ond hefyd daethant yn ymwybodol o'r newydd o'r berthynas rhwng eu ffydd a'u gwlad. Duw a roddodd iddynt y wlad honno a datguddio ei hun iddynt yno. Roedd cael eu gwahanu oddi wrth y tir yn eu gwahanu oddi wrth Dduw. Nid dim ond hiraeth am eu cartref oedd hynny, a thristwch am a fu. Roedd yn argyfwng sylfaenol mewn hyder a chred: os oeddent wedi'u hamddifadu o'u gwlad a oedd Duw wedi eu diarddel am byth? A oedd addewidion Duw wedi methu?

Caiff adnodau olaf y Salm yn aml eu hepgor mewn embaras am y ffordd maent yn mynegi'r ysfa ddynol i ymateb i drais â thrais: 'O ferch Babilon, a ddistrywir, gwyn ei fyd y sawl sy'n talu'n ôl i ti am y cyfan a wnaethost i ni. Gwyn ei fyd y sawl sy'n cipio dy blant ac yn eu dryllio yn erbyn y graig.' (adnodau 8-9). Er i ni ffieiddio wrth y delweddau treisgar, erys yn wir y gall y canlyniadau fod yn ddifrifol os goddefir i anghyfiawnderau barhau. Mae peidio â gweithredu'n gwadu difrifoldeb y weithred wreiddiol, yn bychanu'r anaf a achoswyd ac yn

Jesus taught that the first commandment was to love, which directs responsibility and energy towards the needs and interests of others. We can assume too easily that the command to love God and then to love our neighbour is mostly about 'religious priorities'. The Kingdom of God, however, is very much concerned with the issues of real, everyday life. Matters of justice and forgiveness must be more than a matter of private confession or church liturgy.

The story of Tryweryn prompts us, as Christians, to ask questions about what creates identity but should also provoke us to reflect on how to respond to injustice and wrongdoing. It is such a powerful story because an act of political violence prevailed, where the 'strong' exercised control over the 'weak' and local voices were, like the dwellings, lost beneath an impenetrable watery grave.

The experience of God's people in being driven from their land into exile provides a Biblical perspective on issues of power and control. Imperial forces subdued and forcibly relocated them, stripping them of so much that made up their identity. In words of lament, we glimpse the depths of their loss: 'By the rivers of Babylon we sat and wept when we remembered Zion. There on the poplar we hung our harps, for there our captors asked us for songs, our tormentors demanded songs of joy; they said, "Sing us one of the songs of Zion!"' (Psalm 137:1-3).

As they contemplated their situation, they felt grief but also a renewed consciousness of the relationship between their faith and their land. God had given them that land and revealed himself to them there. To be apart from it was to be apart from God. This was not simply 'hiraeth', that Welsh word that speaks of longing, nostalgia and homesickness. This was a fundamental crisis of confidence and belief: if the land had been taken from them, had God cast them off forever? Had God's promises failed?

The last verses of the Psalm are often omitted with some embarrassment because of the way they express the human urge to reciprocate with violence: 'Daughter Babylon, doomed to destruction, happy is the one who repays you according to what you have done to us. Happy is the one who seizes your infants and dashes them against the rocks.' (vv. 8-9). While we recoil from the violent imagery, it remains true that if injustices are left unaddressed, the consequences can be serious. Inaction denigrates the seriousness of the original act, dismissing the injuries suffered and treating

ymdrin â'r loes sy'n aros fel niwsans yn hytrach na sbardun i weithredu. Yng nghyd-destun Tryweryn, gall yr ing a adleisir yn y slogan 'Cofiwch...' droi'n feithrinfa dialedd. Ni ddylid byth ddefnyddio camweddau'r gorffennol fel esgus ar gyfer casineb yn erbyn Saeson nad yw'n ddim mwy na llai na hiliaeth.

Gall cofio anghyfiawnderau'r gorffennol hefyd liwio'n hunanadnabyddiaeth a'n hunaniaeth mewn ffyrdd cadarnhaol. Yr hyn a ddeilliodd o'r alltudiaeth ym Mabilon oedd dealltwriaeth newydd o Dduw ac o ddyfodol pobl Dduw fel cenedl. Llwyddodd y bobl i oresgyn parlys eu poen ac ailddiffinio a dyfnhau eu hymwybyddiaeth o'r hyn oeddent.

Yn y Testament Newydd mae hunaniaeth Cristnogion wedi'i gwreiddio ym mherson Iesu. Yn yr Epistol at yr Effesiaid, mae ein safle 'yng Nghrist' fel ffynhonnell ein bywyd a'n cyrchfan eithaf yn drech nag unrhyw beth arall sy'n ein nodweddu – lliw, rhyw, ethnigrwydd a chefndir (2:14-16). Mae hynny'n agor y ffordd i ni ddarganfod y modd y gallwn berthyn i rai o'r tu allan i'n cymuned ni ein hunain ac yn sefydlu dolen rymus rhyngom â'n gilydd. Yn yr un modd ag y mae afon yn cysylltu cymunedau, felly hefyd mae'r Efengyl yn clymu amrywiol rannau'r teulu dynol yn un. Mae'r cwlwm hwn yn disodli popeth arall ac yn gosod y cyd-destun, yr ysbrydoliaeth a'r ffordd ar gyfer gwneud newid yn wirioneddol bosibl.

## Gwybod pwy ydym yn Nuw

Rydym eisoes wedi nodi mai ffocws yr Adfent yw paratoi at ddyfodiad y Brenin. Mae dwy agwedd i hynny sydd â'u sail ym mherson Iesu Grist: ei ymgnawdoliad a'r addewid y daw drachefn. Mae Cristnogaeth yn datgan bod Iesu'n gyflawn Dduw ac yn gyflawn ddyn. Pan fyddwn yn paratoi at groesawu plentyn y Nadolig, nid yw hynny ddim llai na chroesawu'r 'Duw a ddaeth atom' i'w eni ym Methlehem, 'Immanuel' yng ngeiriau Sant Mathew (1:23). Byddai'n anodd i ni ddychmygu beth fyddai maint yr afon ar ddiwedd ei thaith wrth sefyll yn ucheldir Cymru'n syllu ar y ffrwd fach wrth ein traed. Ond dyna mae'r ymgnawdoliad yn ei gynnig i ni: y Crist sy'n gwbl ddynol, wedi ei eni'n blentyn, ac sydd eto'n gwbl ddwyfol, yn Arglwydd ar bopeth.

Mae'r argyhoeddiad hwn – bod Duw'n bresennol mewn ffordd unigryw yn Iesu ac yn un ag ef – yn hollbwysig i ddeall oblygiadau ei ddyfod atom. Nid dim ond proffwyd ydoedd yn dod i gyhoeddi'r newyddion am Deyrnas

ongoing pain as a nuisance rather than a prompt to action. Inaction can also generate suspicion and resentment. In the context of 'Tryweryn', the invective that may accompany a 'Cofiwch...' ('Remember') slogan can become a nursing of grudges. Past wrongs should never be used as a cover for an anti-English invective that is no more or less than racism.

Remembering past injustices can also shape our self-understanding and identity in powerfully positive ways. What resulted from the Babylonian exile was a new understanding of God and the future of God's people as a nation. They were able to move beyond the paralysis of pain and redefine and deepen their awareness of who they were.

In the New Testament the identity of Christians is focused in the person of Jesus. In the Epistle to the Ephesians, our position 'in Christ' as the source of our life and ultimate destination, transcends all other realities – colour, gender, ethnicity and background (2:14-16). This opens the way to discovering how we can belong to those outside of our own community and connects us to each other in a profound way. As a river connects communities so the gospel gathers the diverse parts of the human family into one. This dynamic supersedes everything else and provides the context, inspiration and means by which change really is possible.

## Knowing who we are in God

We have already noted the focus of Advent is on preparing for the King. This focus has two aspects which are held within the person of Jesus Christ: his incarnation and his anticipated return. The Christian understanding of the person of Jesus is that he was fully God and fully human. When we prepare to welcome the Christmas child, it means nothing less than welcoming the 'God-come-to us' born in Bethlehem, 'Immanuel' in the words of St Matthew (1:23). We would struggle to envisage the scale of the river at its final destination if standing high in the mountains of mid Wales gazing at the trickle of water beneath our feet. Yet this is what the incarnation offers us: the Christ who is fully human, born as child and is yet fully divine, the Lord of all.

This conviction - that God was uniquely present in and one with Jesus - is crucial to how we understand the implications of his coming. Here was no prophet simply announcing news of God's Kingdom. Jesus came to usher this

Dduw. Daeth Iesu i roi'r Deyrnas ar waith ei hun ac i'w chyflawni drwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Dygir holl sefydliadau, grymoedd ac awdurdodau'r ddynoliaeth o dan gwmpas y Deyrnas hon y mae cyfiawnder a heddwch yn ei nodweddu. Ac eto, nid yw wedi ei seilio mewn byd sy'n bodoli mewn gwacter 'draw fan'na', ond mewn unigolion a chymunedau a elwir i ildio hen elyniaethau, i gofleidio maddeuant ac i gamu tua'r dyfodol gyda hyder newydd. Mae oblygiadau o bwys yn hyn ar gyfer unrhyw gymuned sy'n dwyn beichiau dicter a loes.

Rydym yn cadarnhau ein cred yn ailddyfodiad Iesu pan ddwedwn wrth adrodd Credo'r Apostolion y bydd Crist yn dod 'i farnu'r byw a'r meirw'. Bydd y weithred hon o gariad breiniol yn cwblhau'r gwaith a ddechreuwyd ym Methlehem ac fe'i darlunnir Llyfr y Datguddiad. Mae delweddau dramatig yn dangos hanes yn ei gyfanrwydd yng nghoflaid Duw – nid yn gaeth yn ei ddwrn caeëdig. Y gwir ddiogel obaith hwn sy'n peri bod credu mewn Duw Sofran yn ennyn nid arswyd ond ffydd.

Rydym wedi dod yn fwy a mwy ymwybodol o'n gwendid ninnau ac o freuder bywyd yn sgil y pandemig COVID-19. Mae wedi'n hatgoffa mewn ffordd anghysurus nad ydym yn gallu rheoli'n ffawd yn llwyr. Mae i ni gysur, felly, o dystiolaeth yr Ysgrythur a dysgeidiaeth yr Eglwys bod holl rawd ein bywyd yn digwydd o fewn cwmpas ewyllys oddefol Duw. Saif Crist y Gwaredwr ar ddechrau a diwedd amser ac ynddo ef, drwyddo ef ac er ei fwyn ef y'n crëwyd ninnau a phob creadur byw arall.

Gobaith y Cristion yw y byddwn ar ddiwedd amser yn sefyll ym mhresenoldeb Tad sy'n dragwyddol gyfiawn ond hefyd yn dragwyddol gariadus. Mae hynny'n ein galluogi i wynebu angau ag agwedd wahanol, gan newid ein marw o fod yn rhywbeth i'w ofni i fod yn baratoad ar gyfer bod gyda'r un sydd i ni'n darddiad a diwedd, sef Crist, yr un na ellir ein gwahanu oddi wrtho yn y bywyd hwn na'r bywyd sydd i ddod.

Kingdom in himself and secured it in his death and resurrection. All human institutions, powers and authorities are brought within the scope of this Kingdom which is marked by justice and peace. And yet its reach starts not with a world that exists in a vacuum, 'out there', but with individuals and communities called to lay down past grievances, embrace forgiveness and move forward with new confidence. This has significant implications for any community carrying grudges and hurts.

The anticipated return of Jesus is what we affirm in the Apostles' Creed when we speak of Christ coming 'to judge the living and the dead'. This act of sovereign love completes the work began in Bethlehem and is visually captured in the book of Revelation. Dramatic pictures describe how the whole of history is held within the embrace – not the clenched fist - of God. It is this sure and certain hope that makes belief in a Sovereign God something that generates not fear but faith.

We have become ever more conscious of our frailty and of life's uncertainty in the light of the Covid-19 pandemic. It has provided an uncomfortable reminder that we are not fully in control of our destinies. We can take courage, then, from the witness of Scripture and the teaching of the Church that all life takes place within the permissive will of God. Standing at the beginning and end of time is the Saviour Christ in whom and through whom and for whom we and every living being were created.

The Christian hope is that at the end of the age we will find ourselves in the presence of an eternally just but also eternally loving Father. This allows us to face death differently, turning our passing from a matter of fear into a matter of preparing to be with the one who is our source and our destination, Christ from whom we cannot be parted in this life or the next.




*Ger Llyn Celyn*
*By the shores of Llyn Celyn*

## Colect

*Ein Tad,*
*daeth dy Fab i'w eni yn ein plith*
*mor guddiedig â tharddle Hafren.*
*Ar ei lwybr*
*drwy'r byd gwrthnysig hwn,*
*gorlifai â chariad,*
*gan ymarllwys i ddysgl*
*a golchi ein traed ar gyfer*
*gwasanaethu,*
*fel y bydd i ffrydiau dyfroedd bywiol*
*lifo hyd yn oed drwom ninnau.*
*Yn dy drugaredd,*
*dadwreiddia a lloria ein dicterau,*
*fel y gallwn gofleidio a hyrwyddo llif*
*y maddeuant a darddodd*
*o'i ystlys ar y groes,*
*a chael ein cludo,*
*yn nyfnder y tonnau,*
*hyd lawnder bywyd;*
*gofynnwn hyn er lles dy fyd,*
*ac er dy ogoniant dithau.*
*Amen.*

## Collect

*Father,*
*your Son came to birth among us*
*as hidden as the Severn's source.*
*Through the course*
*of this resistant world,*
*he overflowed with love,*
*pouring himself into a basin,*
*and washing our feet for service,*
*that even through us may stream*
*rivers of living water:*
*in your mercy,*
*uproot and overwhelm*
*our grievances,*
*that we may embrace and let flow*
*the forgiveness which issued*
*from his side on the cross,*
*and be carried, out of our depth,*
*into fullness of life;*
*we ask this*
*for the good of your world,*
*and to you glory.*
*Amen.*

## Cwestiynau

***Pa nodwedd yn nhirwedd Gogledd Cymru ydych chi'n ei hoffi fwyaf – a pham?***

***Pa beryglon a pha fanteision allai ddod o ailagor creithiau'r gorffennol?***

***Beth mae'r addewid y bydd Iesu'n dychwelyd mewn gogoniant yn ei olygu i chi?***

***Sut allwn ni gofleidio cyfiawnder a thrugaredd ynghyd?***

## Questions

***What feature of the North Wales landscape do you like most – and why?***

***What pitfalls and positives can result from 'dragging up the past'?***

***What does the promised return of Jesus in glory mean to you?***

***How do we reconcile justice and mercy?***

# 3

# Aros mae'r Mynyddau Mawr?

# Mountains and Moels



*Rhobell Fawr*

## Hen, hen danau a chewri cerrig

Mewn cornel anghysbell o Barc Cenedlaethol Eryri saif Rhobell Fawr, llosgfynydd diffoddedig a ffrwydrodd ddiwethaf rhwng 485.4 miliwn a 443.8 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o lifoedd lafa i'w gweld yno hyd heddiw a hefyd llawer o'r 'allwthiadau' sy'n dangos lle llwyddodd y lafa i wrthio'i ffordd i'r wyneb. Yn ystod ei hanes hir cafodd y dirwedd ei cherfio gan y rhewlifiannau a ffurfiodd yn ystod sawl oes iâ. Yn ardal y Migneint, ger mynyddoedd yr Arenig, roedd dyfnder y rhew yn 1,400m gyda rhewlifau'n llifo allan o'r capan iâ yno, gan ddyfnhau cymoedd a ffurfio bylchau rhwng y mynyddoedd. Er mai cymedrol yw o ran uchder (734 metr), mae Rhobell Fawr yn un o'r mynyddoedd mwyaf diddorol a hynafol yng Nghymru.

## Ancient fires and stone giants

In a little-known corner of the Snowdonia National Park stands Rhobell Fawr, an extinct volcano which erupted between 485.4 million and 443.8 million years ago. Not only does it still preserve many lava flows, but it also exposes many of the 'extrusions', showing where lava was able to force its way to the surface. In its long history, the landscape has been shaped by glaciation throughout the various ice ages. At the Migneint area, near the Arenig mountains, the depth of ice was 1,400m and glaciers radiated from this ice cap, deepening valleys and forming mountain passes. Although modest in height (734 metres), Rhobell Fawr is one of the most distinctive and ancient mountains in Wales.

O'r copa, mae'r olygfa'n ymddangos bron yn annaearol. Gorchuddir y copa gan wellt garw, ond mae creigiau'n torri drwy'r wyneb gan ymddangos fel cerfluniau sydd wedi colli pob llun a ffurf. Wedi eu gweithio gan yr elfennau dros filiynau o flynyddoedd mae'r creigiau enfawr hyn yn cofnodi olion yr ennyd pan dasgodd ffrydiau o greigiau toddedig dros wyneb y ddaear ifanc. Ffurfiwyd metelau gwerthfawr hefyd yn ddwfn yng nghrawen y ddaear o ganlyniad i bwysedd gwres ac amser. Mae aur ardal Dolgellau, a ffurfiwyd gan ffrwydradau Rhobell Fawr, yn enwog ledled y byd ac mae gemwaith Clogau'n gyfarwydd i lawer.

Amgylchedd digroeso a geir yma. I fwynhau hudoliaeth harddwch gwyllt y mynydd, mae'n rhaid i gerddwyr wynebu dringfa serth a gwyntoedd gwyllt y copa noeth. Mae'r golygfeydd rhyfeddol oddi yno'n cynnwys mynyddoedd uwch a ieuengach, megis y Rhinogydd a'r ddwy Aran.

Mae bodau dynol wedi myfyrio llawer ynghylch y bryniau hynafol hyn, er mai ond yn gymharol ddiweddar y sylweddolwyd pa mor rhyfeddol o hen ydynt. Wrth sefyll ar gopa mynydd megis Rhobell Fawr deuwn yn ymwybodol pa mor gwbl feidrol ydym. Tra byddwn ninnau fyw am ein 'dengmlwydd a thrigain' bu mynyddoedd fel y rhain yma am lawer, lawer iawn hirach. Gall sylweddoli hynny fod yn ysbrydoliaeth ond gall hefyd fod yn ddarostyngol – pa ôl allwn ninnau ei adael ar y ddaear hon o gymharu â nodwedd naturiol a fu yma gyhyd?

Mae ystyried cyfnodau daearegol yn ein hysgogi i feddwl am amser mewn ffordd wahanol. Hawdd yw llywio'n bywydau o gwmpas cyflymder, cynnydd a datblygiad diddiwedd. Mae'r ffasiynau diweddaraf parthed ffordd o fyw'n mynd a dod mewn amrantiad ac mae newidiadau technegol yn digwydd yn ddryslyd o gyflym. Mae'r pandemig COVID-19 wedi hoelio'n sylw unwaith eto ar ystyried a ydym yn byw yng nghysgod cyfalafiaeth sy'n annog cyflymder a chynnydd ond lle nad ydym efallai'n parchu digon ar y cread yn ei wendid, ei harddwch a'i hirhoedledd. Mae'r chwant am dwf parhaus a defnyddio diddiwedd yn seiliedig ar y dybiaeth anghynaliadwy bod digon o bopeth i ganiatáu i bawb geisio hynny a fynnant yn ddilyffethair.

Nid dim ond oed cerrig a meini'r mynyddoedd hyn sy'n peri rhyfeddod; ond hefyd eu maint a'u mawredd. Mae'r darnau enfawr hyn o'r dirwedd yn pwyso miliynau o dunelli. Os yw eu hoedran yn ddychryn i ni, gall eu maint ein hysbrydoli i fyfyrio ar ryfeddod yr hyn oll a wnaeth Duw. Mae llawer o'r Salmau'n cyfeirio at fawredd y mynyddoedd er mwyn dangos pa faint mwy

Standing at the summit is to be greeted by a vista that seems almost unearthly. The apex is covered with coarse grass, but rocky outcrops break onto the surface, rising up like statues that have lost all shape and form. Worn away over millions of years these giant rocks retain the impression of the moment when streams of molten rock spurted out onto a young earth. Precious metals have also been formed deep within the earth's crusts as a result of the pressures of heat and time. The gold of the Dolgellau area, formed by the Rhobell eruptions, is famous worldwide and Clogau jewellery is a household name.

This is an inhospitable environment, as captivating in its wild beauty as it is risky for any hill walker unprepared for the arduous ascent and blustery conditions at the top. The extraordinary views from the summit encompass larger, younger mountains, such as the Rhinogs and Arans.

Human beings have often pondered these ancient peaks, although their extraordinary age is a relatively recent discovery. Standing at the top of a mountain like Rhobell is to become conscious of our deep finitude. Whereas we live our 'threescore years and ten', such mountains have been incomprehensibly longer in the making. This can be a humbling experience as well as inspiring – what mark can we make on this earth against the timescale of a natural feature that has existed so long?

The span of geological eras prompts us to have a different perspective on time. We easily forge a life of speed, progress and constant development. The latest lifestyle trends pass quickly and technological shifts occur with a rapidity that is breath-taking, even bewildering. The COVID-19 epidemic has once more focused our attention on whether our lives are being lived out in the shadow of a capitalism which encourages speed and progress but whether sufficient respect for creation in its fragility, beauty and longevity is being similarly marked. The drive towards constant growth and consumption is founded on a premise which might be unsustainable: that there is enough of everything for everyone to have all they want without restraint.

It is not only the age of the rock and stone in these mountains that is humbling; it is their sheer size and magnitude. These gigantic bits of landscape weigh millions of tons. If their age daunts us, their size can inspire us to reflect on the wonder of all that God has made. Many of the Psalms invoke the majesty of the mountains to speak of God's greater strength

grymus yw Duw ac i ddarlunio ei bresenoldeb tragwyddol â'i bobl.

Gyda newid yn digwydd yn gyflymach, mae mynyddoedd megis Rhobell Fawr yn ein gwahodd i ddatblygu agwedd wahanol, gan edrych ar bethau mewn ffordd fwy gofalus ac ystyriol a chadw golwg ar y tymor hir. Mae hyn yn mynd yn groes i'r diwylliant sydd ohoni ac mae'n newid sy'n hynod arwyddocaol ar gyfer oes pan ydym yn fwy ymwybodol nag erioed pa mor fregus yw ein byd.

## Tomenni gwastraff ac egin gwyrddion

Am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dywedir mai Gogledd-orllewin Cymru oedd yn darparu toeau'r byd. Byddid yn 'cynaeafu' llechi a ffurfiwyd dros filiynau o flynyddoedd o gywasgu llaid a mwynau gwaddodol ac yn eu hanfon ledled y byd fel defnyddiau adeiladu. Un o'r ardaloedd mwyaf cynhyrchiol oedd cyffiniau Blaenau Ffestiniog, lle sefydlwyd nifer o chwareli. Tyfodd y rhain yn rhwydwaith enfawr o fusnesau preifat a oedd yn cloddio ar gyfer yr 'aur porffor' a oedd o ansawdd digonol ar gyfer ei weithio a'i allforio. Adeiladwyd rheilffyrdd i gludo'r llechi i borthladdoedd cyfagos ar gyfer eu hallforio i America ac Ewrop. Fe wnaeth 'brand' Blaenau ddyrchafu'r ardal, a fu gynt ond yn gasgliad anghysbell o fân bentrefi, i fod yn un o ganolfannau diwydiant ac arloesi enwocaf y byd.

Ar ei hanterth Blaenau Ffestiniog oedd tref ail fwyaf y Gogledd, gyda mwy a mwy o bobl yn dod o rannau eraill o Gymru ac o fannau eraill ledled y Deyrnas Unedig gan fod yn fodlon gweithio'r oriau hirion dan amodau peryglus a fynnai perchnogion y chwareli. Ychydig iawn o'r gofynion iechyd a diogelwch modern a fodolai bryd hynny. Os na allech weithio am ba bynnag reswm, ni fyddai tâl na budd-dâl salwch o fath yn y byd. Byddai rhai o'r chwareli'n darparu barics ar gyfer eu gweithwyr ac weithiau eu teuluoedd hefyd ond byddai'n rhaid talu rhent a byddai hyd yn oed y tanwydd ar gyfer yr aelwyd yn y gaeaf yn cael ei 'ddarparu' am bris chwyddedig. Unwaith y byddai cyflogaeth gweithiwr wedi dod i ben, fe gollai ei lety hefyd, gan olygu y byddai teulu'n ddigartref a heb unrhyw incwm.

Erbyn canol yr ugeinfed ganrif roedd dylanwad y chwareli'n gwanhau a'u cynnyrch yn lleihau. Rhoes llechi rhatach o Sbaen a dulliau cynhyrchu newydd lawer o bobl allan o waith. Yn raddol fe gaeodd y chwareli a gostyngodd poblogaeth Blaenau yn ddifrifol fel erbyn heddiw dim ond un chwarel sy'n parhau i weithio a bellach dim ond tua 4,900 o bobl sy'n byw yn y dref. Ystyrir

and everlasting presence with his people.

When the rapidity of change is accelerating, mountains such as Rhobell invite us to develop a different attitude, calling forth a more deliberate, reflective and longer term perspective. This is deeply counter cultural and significant in an age where consciousness about our fragile world is more developed than at any time previously.

## Waste heaps and green shoots

For a large part of the nineteenth century North West Wales is said to have 'roofed the world'. Slate formed over millions of years by the pressure of weight on sedimentary muds and minerals, was 'harvested' and sent across the globe to provide building materials. One of the most productive areas was the array of quarries which sprung up near Blaenau Ffestiniog. These became a vast network of privately owned businesses that extracted the 'purple gold' of sufficient quality to shape and export. Railways were built to take the slates to nearby ports for export to America and Europe. The Blaenau 'brand' elevated the town from an obscure collection of small settlements to one of the most famous places of industry and innovation in the world.

At its height, Blaenau Ffestiniog was the second largest town in North Wales, with increasing numbers coming from other parts of Wales and across the United Kingdom in search of employment, willing to work the long hours in dangerous conditions required by the quarry owners. Few of the modern health and safety regulations existed. If you could not work for any reason, there was no pay and no sickness benefit. Some quarries provided barracks for the workmen and sometimes their families but rent was payable and even fuel for a winter fire was 'provided' at an inflated cost. Once a labourer finished their employment, their residency ended too and that meant a family would be homeless, as well as lacking any source of income.

By the middle of the twentieth century the quarries were waning in their influence and output. Cheaper Spanish slates and new production methods put many out of work. Gradually the quarries closed and the population of Blaenau plummeted, until today there is just one working quarry and the population stands at around 4,900. Blaenau is regarded as an area




*Blaenau Ffestiniog*

Blaenau yn ardal a ddioddefodd amddifadedd economaidd, gyda'r trigolion yn gorfod ceisio dygymod ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol. Byddai rhai'n edrych i lawr eu trwynau at y gymuned hon, gan golli golwg ar y ffordd mae hanes cyffredin yr ardal wedi caniatáu datblygu nifer o fentrau a syniadau newydd.

Er na chynhwyswyd Blaenau Ffestiniog ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn y 1950au, mae egni newydd yno wedi arwain at ymwneud creadigol â'r amgylchedd. Bellach mae'r ceudyllau llechi anferth yn gartrefi i gyfleusterau adloniant modern, mae'r coedwigoedd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer beicio mynydd a cherdded yn yr ucheldir ac mae'r rheilffordd dreftadaeth sydd wedi bod ar waith gyhyd yn edrych yn fodern a chyfoes. Mae llethrau prudd y tomenni gwastraff llechi, sy'n taflu eu cysgod dros y dref lawiog hon, yn cyferbynnu â'r ysbryd gobeithiol sy'n ysgogi'r rhai sy'n hyrwyddo'r datblygiadau newydd. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw math arall o ddyfodol yn seiliedig nid ar arferion cyflogwyr gormesol y gorffennol ond ar gyfalaf a gwerth mentergarwch pobl.

that has suffered economic deprivation, with residents seeking to manage a range of social issues. Some would stigmatize this community and miss the way that a shared history has allowed a range of new initiatives and ventures to emerge.

Although Blaenau was omitted from the Snowdonia National Park in the 1950s, new energy has resulted in creative engagement with the environment. The vast slate caverns now house modern entertainment facilities, the forests provide mountain biking and hill walking opportunities and the long established heritage railway has a modern and contemporary appearance. The looming mountains of slate waste, which cast shadows across the town (plus a higher than average rainfall) contrast with the spirit of hope in those who are forging new development. What is becoming apparent is a different kind of future based not on the exploitative labour practices of former years but the capital and currency of human initiative.

## Testunau o'r Beibl

> *Arglwydd, buost yn amddiffynfa i ni ymhob cenhedlaeth. Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw. Yr wyt yn troi pobl yn ôl i'r llwch, ac yn dweud, "Trowch*

## Bible passages

> *Lord, you have been our dwelling-place in all generations. Before the mountains were brought forth, or ever you had formed the earth and the world, from everlasting to everlasting you are God. You turn us back*

> *yn ôl, chwi feidrolion." Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos. Yr wyt yn eu sgubo ymaith fel breuddwyd; y maent fel gwellt yn adfywio yn y bore— yn tyfu ac yn adfywio yn y bore, ond erbyn yr hwyr yn gwywo ac yn crino. Oherwydd yr ydym ni yn darfod gan dy ddig, ac wedi'n brawychu gan dy gynddaredd. Gosodaist ein camweddau o'th flaen, ein pechodau dirgel yng ngoleuni dy wyneb. Y mae ein holl ddyddiau'n mynd heibio dan dy ddig, a'n blynyddoedd yn darfod fel ochenaid. Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain trwy gryfder, ond y mae eu hyd yn faich ac yn flinder; ânt heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith. Pwy sy'n gwybod grym dy ddicter, a'th ddigofaint, fel y rhai sy'n dy ofni? Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth. Dychwel, O ARGLWYDD. Am ba hyd? Trugarha wrth dy weision. Digona ni yn y bore â'th gariad, inni gael gorfoleddu a llawenhau ein holl ddyddiau. Rho inni lawenydd gynifer o ddyddiau ag y blinaist ni, gynifer o flynyddoedd ag y gwelsom ddrygfyd. Bydded dy weithredoedd yn amlwg i'th weision, a'th ogoniant i'w plant. Bydded trugaredd yr Arglwydd ein Duw arnom; llwydda waith ein dwylo inni, llwydda waith ein dwylo.*

***Salm 90***

> *to dust, and say, 'Turn back, you mortals.' For a thousand years in your sight are like yesterday when it is past, or like a watch in the night. You sweep them away; they are like a dream,  like grass that is renewed in the morning; in the morning it flourishes and is renewed; in the evening it fades and withers. For we are consumed by your anger; by your wrath we are overwhelmed. You have set our iniquities before you, our secret sins in the light of your countenance. For all our days pass away under your wrath; our years come to an end like a sigh. The days of our life are seventy years, or perhaps eighty, if we are strong; even then their span is only toil and trouble; they are soon gone, and we fly away. Who considers the power of your anger? Your wrath is as great as the fear that is due to you. So teach us to count our days that we may gain a wise heart. Turn, O Lord! How long? Have compassion on your servants! Satisfy us in the morning with your steadfast love, so that we may rejoice and be glad all our days. Make us glad for as many days as you have afflicted us, and for as many years as we have seen evil. Let your work be manifest to your servants, and your glorious power to their children. Let the favour of the Lord our God be upon us, and prosper for us the work of our hands— O prosper the work of our hands!*

***Psalm 90***

> *Dyma'r hyn a ddywed yr Arglwydd, eich Gwaredydd, Sanct Israel: "Er eich mwyn chwi byddaf yn anfon i Fabilon, ac yn dryllio'r barrau i gyd, a throi cân y Caldeaid yn wylofain. Myfi, yr Arglwydd, yw eich Sanct; creawdwr Israel yw eich brenin." Dyma'r hyn a ddywed yr Arglwydd, a agorodd ffordd yn y môr a llwybr yn y dyfroedd enbyd; a ddug allan gerbyd a march, byddin a dewrion, a hwythau'n gorwedd heb neb i'w codi, yn darfod ac yn diffodd fel llin: "Peidiwch â meddwl am y pethau gynt, peidiwch ag aros gyda'r hen hanes. Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod? Yn wir, rwy'n gwneud ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch. Bydd anifeiliaid gwylltion yn fy mawrygu, y bleiddiaid a'r estrys, am imi roi dŵr yn yr anialwch ac afonydd yn y diffeithwch, er mwyn rhoi dŵr i'm pobl, f'etholedig, sef y bobl a luniais i mi fy hun, iddynt fynegi fy nghlod.*

***Eseia 43:14-21***

> *Thus says the Lord, your Redeemer, the Holy One of Israel: For your sake I will send to Babylon and break down all the bars, and the shouting of the Chaldeans will be turned to lamentation. I am the Lord, your Holy One, the Creator of Israel, your King. Thus says the Lord, who makes a way in the sea, a path in the mighty waters, who brings out chariot and horse, army and warrior; they lie down, they cannot rise, they are extinguished, quenched like a wick: Do not remember the former things, or consider the things of old. I am about to do a new thing; now it springs forth, do you not perceive it? I will make a way in the wilderness and rivers in the desert. The wild animals will honour me, the jackals and the ostriches; for I give water in the wilderness, rivers in the desert, to give drink to my chosen people, the people whom I formed for myself so that they might declare my praise.*

***Isiah 43:14-27***

Yn Salm 90, mae'r awdur yn myfyrio ar y Duw sydd yn hŷn hyd yn oed na chreigiau'r

In Psalm 90, the writer reflects on the God who is more ancient even than the rocks of the mountains: 'Before the mountains were brought

mynyddoedd: 'Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw. Yr wyt yn troi pobl yn ôl i'r llwch, ac yn dweud, "Trowch yn ôl, chwi feidrolion." Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos.' (adnodau 2-4).

Gallai cymhariaeth o'r fath wneud i ni deimlo'n fychan a dibwys. Pwy ydym ni mewn cymhariaeth â'n Duw, sy'n gwylio dros bopeth yn dragwyddol, yr un nad oes iddo ddechrau na diwedd? Ar gynfas y realiti hwnnw, gall bywyd dynol ganfod diben a gwerth oherwydd ein bod yn atebol am yr hyn a wnawn â'r ychydig amser sydd gennym. Mae'r atebolrwydd hwnnw, ynghyd â'r wybodaeth ein bod wedi'n creu ar lun a delw'r tragwyddol Dduw (Genesis 1:26) yn rhoi i ni urddas. Golyga hefyd nad ydym byth yn rhydd ond i wneud fel y mynnwn. Mae gennym gyfrifoldeb tuag at Dduw a thuag at bopeth a wnaed, y greadigaeth a roddwyd i ni i'w stiwardio a'i gwarchod (Genesis 2:15).

Er bod Duw'n dragwyddol a thu hwnt i ddeall bodau dynol, nid yw hynny'n golygu bod popeth yn sefyll yn yr unfan. Gwelai'r proffwyd Eseia allu Duw i weithio adnewyddiad: 'Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod? Yn wir, rwy'n gwneud ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch.' (43:19). Gellir disgrifio hyn fel 'ffydd mewn atgyfodiad' sy'n gweld y tu hwnt i amgylchiadau'r presennol ac yn gallu dychmygu sut allai bywyd fod.

Mae gweledigaeth Eseia'n arbennig o bwerus oherwydd bod argyfwng y gaethglud ar y pryd yn ei gwneud yn anodd dychmygu'r fath adfywiad, ond nid dim ond Eseia a brofodd weledigaeth o'r fath. Dengys hanes y patriarchiaid y modd y mae'r thema Ysgrythurol o ennill yn cydbwyso â cholled yn ymestyn yn ôl at ddechreuadau ffydd gyfamodol. Byddai'r 'tad dyrchafedig' (Abram) yn colli'r statws hwnnw er mwyn i'r genedl gael ei bendithio drwy 'dad lliaws' (Abraham), ac amlygir y newid drwy roi enw newydd iddo. Weithiau, o'r colledion a brofwn y daw enillion mawr yn bosibl. O'i sofraniaeth mae'r Arglwydd Dduw yn gallu gwneud 'peth newydd' sy'n gwneud brethyn bywyd yn ffocws ei ddibenion daionus. Nid yw'r ffaith i ni ysbeilio'r greadigaeth yn golygu bod pob gobaith am adnewyddiad ar ben.

forth, or ever you had formed the earth and the world, from everlasting to everlasting you are God. You turn us back to dust and say, "Turn back, you mortals." For a thousand years in your sight are like yesterday when it is past, or like a watch in the night.' (vv. 2-4).

Such comparison might make us feel diminished, insubstantial. Who are we in relation to our God whose oversight is eternal, who has no beginning and no end? Within this reality, human life can find purpose and value because we are accountable for what we do with the small amount of time we have. This accountability, as well as the knowledge that we are made in the image of the eternal God (Genesis 1:26) gives us dignity. It also means that we are never at liberty to do just as we please. We have a responsibility to God and to all that has been made, which has been given to us to steward and protect (Genesis 2:15).

Even though God is eternal and beyond human understanding, that does not mean stasis and stagnation. The prophet Isaiah saw in God the capacity for works of renewal: 'I am about to do a new thing; now it springs forth, do you not perceive it? I will make a way in the wilderness and rivers in the desert.' (43:19). This could be described as a kind of 'resurrection faith', seeing beyond current circumstances and able to imagine what life might become.

Isaiah's vision is particularly powerful because the contemporary crisis of exile made such renewal hard to conceive, but it is not unique to the prophet. The history of the patriarchs showshow the Biblical theme of loss balanced by gain stretches back to the beginnings of covenant faith. The 'exalted father' (Abram) would lose that status in order for the nation to be blessed through the 'father of many' (Abraham), the change reflected in a new name. Sometimes it is from the losses we experience that great gains are possible. The Sovereign Lord God is able to do a 'new thing' which makes the material of life the focus of God's good purposes. Just because we have despoiled creation, that does not mean an utter end for every hope of renewal.

## Dyfod mae'r amser

Yn ystod tymor yr Adfent rydym yn arbennig o ymwybodol o amser. Mae mynyddoedd Gogledd Cymru megis cynfas o filoedd ar filoedd

## The time is soon

In the season of Advent we are deeply conscious of time. The mountains of North Wales offer a backdrop of millennia and this can

o flynyddoedd a gall hynny ein cynorthwyo i grisialu'n meddyliau ynghylch cwrs ein bywydau ninnau. Pan ysgrifennodd yr Apostol Paul at y Cristnogion yn Rhufain, treigl amser a ysbrydolodd ei feddyliau ynghylch dychweliad Iesu: 'Dyma'r awr ichwi i ddeffro o gwsg. Erbyn hyn, y mae ein hiachawdwriaeth yn nes atom nag oedd pan ddaethom i gredu. Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio.' (Rhufeiniaid 13:11-12).

Roedd y Cristnogion cyntaf yn credu'n bendant y byddai'r Arglwydd yn dychwelyd ac edrychent ar eu cenhadaeth yng ngoleuni'r digwyddiad hwnnw oedd ar ddod. Mae ystyriaeth aeddfed drwy'r canrifoedd wedi galluogi'r Eglwys i fyw gyda'r un gobaith, ond dros gyfnod hirach. Nid yw ein dealltwriaeth ninnau o amser o reidrwydd yr un ag yw dealltwriaeth Duw ac mae hynny'n gofyn am ddyfalbarhau mewn amynedd – gwirionedd y mae angen, efallai, i lawer o eglwysi ei gofleidio'n ddyfnach.

Rydym hefyd yn ymwybodol yn ystod yr Adfent, sy'n dymor edifeiriol, mai pechaduriaid ydym. Mae hanes cynnar y chwareli'n amlygu'r duedd ormesol yn y natur ddynol, pan fu i arferion gwaith israddol a gorfod gweithio oriau hirion am gyflog gwael gadw cymunedau yng ngharchar tlodi. Er tristwch, nid yw'r duedd honno mewn pobl wedi newid ac mae angen i ni wneud mwy nag ond cydnabod arferion gwael y gorffennol. Dylem ymroi i gefnogi tegwch a chyfiawnder drwy fentrau megis Masnach Deg oherwydd bod amodau gormesol yn parhau'n gyffredin mewn llawer o rannau o'r byd. Nid yw'r Efengyl yn caniatáu i ni arddel neges ysbrydol nad yw'n cael effaith ar lawr gwlad ac sy'n wan ei dylanwad ar y ffordd rydym yn byw a'r dewisiadau a wnawn.

Yn olaf, yr Adfent yw dechrau'r Flwyddyn Eglwysig ac o'r herwydd mae'n amser i ymgysegru o'r newydd. Yn union fel yr aur sydd wedi'i gladdu'n ddwfn o dan y creigiau o gwmpas Rhobell Fawr, mae trysor i'w ganfod. Craidd y trysor yw Iesu, y Gair a oedd yno ar wawrddydd y greadigaeth (Colosiaid 1:15), yr oedd ei ddyfodiad yn golygu nid yn unig trawsnewid cymunedau dynol ond hefyd adnewyddu'r ddaear. Os yw i wir gofleidio'r gwirionedd hwn, fe elwir yr Eglwys i gydweithio â Duw i ddangos bod byw'r bywyd cyflawn a gynigir yng Nghrist yn golygu mabwysiadu set wahanol o werthoedd a blaenoriaethau newydd. Mae'n golygu caru Duw ond mae hefyd yn golygu caru ein cymydog fel ni ein hunain.

focus our thoughts on the timeframe of our own lives. When St Paul wrote to the Christians at Rome, it was the passing of time that inspired his reflections on the return of Jesus: 'The hour has already come for you to wake up from your slumber, because our salvation is nearer now than when we first believed. The night is nearly over; the day is almost here.' (Romans 13:11-12).

The first Christians lived with a clear expectation that the Lord would return and they saw their mission in the light of this impending event. Mature reflection over the centuries has allowed the Church to live with this same hope but over a longer period of time. Our own understanding of time is not necessarily God's and this invites patient endurance - perhaps a lesson that many churches need to learn more deeply.

We are also conscious in Advent, a penitential season, that we are sinful. The history of early quarrying reveals the exploitative trait in the human character when sub-standard work practices and long hours with poor pay kept communities locked into poverty. Sadly that human trait has not changed and we need to do more than acknowledge historic bad practice. We should commit to supporting fairness and justice through initiatives such as Fair Trade because exploitative conditions are still prevalent in many parts of the world. The gospel will not allow for a spiritual message that has no traction on the ground and weak implications for the way we live and the choices we make.

Finally, Advent is the start of the Church year and so a time to renew commitment. Like the gold buried deep within the rocks around Rhobell Fawr, there is treasure to be discovered. This treasure centres on Jesus, the Word present at the dawn of creation (Colossians 1:15) whose coming meant not just the transformation of human community but also the renewal of the earth. Holding this truth close means that the Church is called to work with God to show that the fullness of life offered in Christ invites a different set of values and new priorities. It means loving God but also loving our neighbours as ourselves.

## Colect

*Dad nefol, ar y blaned fechan a phrydferth hon a alwn yn gartref i ni, lle gall pob cam a gymerwn beri llefain mewn loes neu ddryllio breuddwyd; cynorthwya ni, yn hytrach na chanolbwyntio'n ddiffrwyth ar bechodau'r gorffennol, i wynebu heriau heddiw â llawenydd, gyda chariad yn ein calonnau a chyda pharodrwydd i gofleidio'r hunanaberth sy'n ofynnol er mwyn gadael i'n plant a'n hwyrion waddol byd sydd o leiaf gystal â'r un y cawsom ninnau ei fwynhau. Amen.*

## Cwestiynau

***Pa dri pheth sydd wedi newid fwyaf yn ystod eich bywyd chi?***

***Beth allai orfod dod i ben yn eich Ardal Gweinidogaeth er mwyn i rywbeth newydd ddatblygu?***

***Pa fath o 'drysor cudd' allai Duw fod yn ein gwahodd i'w ddarganfod?***

***Pam allai fod angen 'dyfalbarhau mewn amynedd' arnom ar yr adeg hon?***

## Collect

*Heavenly Father, on this small and beautiful planet we call home, where every footstep risks a cry of anguish or a broken dream; help us not to dwell and self-indulge on the sins of the past, but to face our present day challenges with cheerfulness, with love in our hearts and the self-sacrifice needed to leave our children and grandchildren a world at least as good as the one we have enjoyed. Amen.*

## Questions

***What three things have changed most in your lifetime?***

***What might have to end in your Ministry Area for something new to emerge?***

***What kind of 'hidden treasure' might God be inviting us to discover?***

***Why might we need 'patient endurance' at this time?***

*Tomenni Blaenau*
*The heaps at Blaenau*



# 4

# Twyni a Thraethau
# Strands and Sands



*Tywydoedd Fairbourne*
*The sands at Fairbourne*

## Teg edrych tuag adref?

Daeth llawer o breswylwyr pentref Fairbourne yng Ngwynedd i fyw yno ar ôl mwynhau gwyliau yn yr ardal pan oeddent yn blant. Cafodd y pentref ei gynllunio yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel pentref glan môr ar yr hyn a fu'n forfa heli a thir pori. Dros y blynyddoedd tyfodd i fod yn gymuned o ychydig gannoedd o dai, siopa, meysydd gwersylla a rheilffordd fach, gyda chyfuniad o gloddiau, system ddraenio a muriau'n ei warchod rhag y llanw. Efallai, yn ddadleuol, mai'r llecyn tawel hwn fydd y gymuned gyntaf yn y Deyrnas Unedig y bydd yr awdurdodau'n cefnu arni oherwydd cynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i newid hinsawdd. Yn 2013, cyhoeddodd y Cyngor Sir y byddai cynnal a chadw'r amddiffynfeydd rhag y môr am gyfnod amhenodol yn anghynaliadwy. Cynigiwyd y byddid, o fewn degawdau, yn dileu pob arwydd i bobl fyw ar y safle fel y gall y tir ddychwelyd i fod yn forfa heli fel y bu.

## What price home?

A good many residents of the Gwynedd community of Fairbourne came to live there after enjoying childhood holidays in the area. In the late 19th century the village had been planned as a seaside resort on what had been salt marsh and grazing land. Over the years it grew to a few hundred houses, shops, campsites and a miniature railway, the tides held back by a system of banks, drainage channels and walls. Controversially, this tranquil spot may become the first UK settlement to be abandoned because of rising sea levels linked to climate change. In 2013 the county council announced that maintaining sea defences indefinitely would be unsustainable. They proposed that in a matter of decades, every sign of human habitation should be removed so that the land can revert to the original salt marsh.

Bu'r cyfryngau'n sôn am oblygiadau cynnydd yn lefel y môr ers blynyddoedd bellach. O chwilio ar-lein gellir canfod amryw o graffigau sy'n dangos beth fydd yn digwydd i arfordir Cymru wrth i lefel y môr gynyddu. Gyda chynnydd o 30 metr (ychydig dros 90 troedfedd) byddai afonydd yn ehangu'n enfawr, byddai Penrhyn Llŷn o fewn y dim i fod yn ynys a byddai ardal Porthmadog yn troi'n archipelago. Fel arfer, fodd bynnag, mae'r cyfryngau'n canolbwyntio ar wledydd â thirwedd isel yn y gwledydd datblygol felly, fel yn achos cymaint o fygythiadau i'n byd, mae'r bygythiad hwn fel petai'n peri rhyw bryder cyffredinol i ni yn hytrach nag yn effeithio arnom yn bersonol. Gall fod yn sioc i ni sylweddoli y bydd gan y DU hefyd ei ffoaduriaid oherwydd newid hinsawdd – ac nid senario o ryw ffilm trychineb mo hynny ond rhywbeth sy'n bygwth dod yn brofiad byw i gymunedau megis Fairbourne.

Ar un lefel (yn arbennig os nad effeithir arnom yn bersonol) gallwn ymgysuro rywfaint bod morfa heli'n gweithredu fel rhwystr naturiol rhwng tir a môr. Dyna sut y daeth 'morfa' yn elfen mewn enwau lleoedd ar hyd arfordir Cymru. Yn wahanol i forgloddiau neu amddiffynfeydd rhag llifogydd, sy'n gostus i'w cynnal a'u cadw, i atal grym y tonnau, mae morfa heli'n ymateb i rythm y llanw, gan amsugno dŵr a chreu pridd wrth i lystyfiant bydru. Maent hefyd yn darparu cynefin i fywyd gwyllt ac yn gweithredu fel rhyw fath o sbwng ar gyfer carbon deuocsid. I bobl Fairbourne, mae llawer mwy yn y fantol na newid mewn tirwedd neu wella cynefin bywyd gwyllt. Byddent yn wynebu colli'r traeth trawiadol â'i dywod braf a'r olygfa odidog ar draws Aber Mawddach. Byddai'n rhaid iddynt adael y gymuned lle maent wedi ymsefydlu ac ymgartrefu. Ni fyddai cydnabod bod hynny'n anochel yn wyneb newid hinsawdd yn lleddfu'r loes.

Mae llawer o ffactorau'n peri i ni deimlo bod rhywle'n 'adra' i ni. Efallai fod gennym drysorfa o atgofion braf o'r amser a dreuliasom yno. Efallai i ni ganfod bod gennym wreiddiau teuluol yno neu efallai mai'r cwbl sy'n cyfrif yw bod y lle gymaint gwell na'r lleoedd y buom yn byw ynddynt o'r blaen. Gall ein perthynas â'n 'milltir sgwâr' bersonol fod yn seiliedig ar ganrifoedd o hanes, ond mae ffaith newid hinsawdd yn ddigon i'n sobri. Mae'n ein hatgoffa y gellir dweud amdanom fel rhywogaeth nad y tir sy'n perthyn i ni ond mai ni sy'n perthyn i'r tir. Y blaned hon yw ein hunig gynefin; annhebygol iawn yw y gallwn ganfod 'adra' unrhyw le arall. Hyd yma, fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i osgoi talu gwir gost gwarchod yr amgylchedd unigryw hwn gan adael y ddyled yn waddol i genedlaethau i ddod.

The media have aired the implications of rising sea levels for a number of years now. An online search produces various graphics showing what happens to the Welsh coastline as sea levels go up. A 30 metre rise (just over 90 feet) would massively expand rivers, take the Llŷn Peninsula to within a hairs-breadth of island status and transform the Porthmadog area into an archipelago. Usually, however, the focus is low-lying countries in the developing world so, as with many global threats, it seems to concern us in a general way rather than affecting us personally. It may be shocking to realise that the UK will have climate change refugees too – and that's not a scenario from a disaster movie but potentially a fact of life for communities like Fairbourne.

At one level (especially if we are not personally affected) we may find some comfort in the thought that salt marshes are the natural buffer between land and sea. This was how 'morfa', 'coastal marsh', became incorporated into community names up and down Wales. Instead of a maintenance-heavy sea-wall or rigid flood defences against the force of the waves, salt marshes respond to the ebb and flow of tide, absorbing water and creating soil from decaying vegetation. They also provide a wildlife habitat and operate as a kind of sponge for carbon dioxide. For the people of Fairbourne, there is far more at stake than a change of landscape or improved wildlife habitat. They would face losing the sweeping sandy beach and majestic panorama of the Mawddach estuary. They would have to leave the community where they have put down roots and made a home. The pain of such would not be diminished by a sense of its inevitability in the face of climate change.

Many factors play a part in triggering a sense of 'home' for us. Perhaps we have a store of happy memories from time spent there. Perhaps we have discovered family roots there or perhaps a location simply offers a wonderful contrast to where we have previously lived. Our relationship to our particular 'milltir sgwar' (or 'home patch') may go back centuries, but the fact of climate change is sobering. It reminds us that, as a species, we could be said to belong to the land, rather than the land belong to us. This planet is our only habitat; we are extremely unlikely to find 'home' anywhere else. Until now, though, we have managed to defer the true cost of preserving this unique environment to the purses of future generations.

## Trwsio'r toredig

Yn Ne-orllewin Ynys Môn, wrth yrru car byddwn yn gadael pentref Niwbwrch y tu ôl i ni ac yn dilyn ffordd droellog sy'n arwain drwy giât talu i mewn i goedwig o binwydd Corsica a ffynidwydd, lle mae wiwerod coch yn crwydro. Byddwn yn cyrraedd yn y pen draw at faes parcio trefnus, gyda thoiledau ac arwyddion, lle mae nifer o lwybrau sydd wedi'u harwyddo yn arwain i ffwrdd rhwng y coed. Ar ddiwrnod gwyntog byddwn yn clywed y môr cyn gweld y tonnau'n torri tu draw i'r twyni, gydag Ynys Llanddwyn yn denu cerddwyr i groesi'r traeth hir tuag ati.

Gelwir yr ardal yn ei chyfanrwydd yn Dywyn Niwbwrch a dyma'r ardal ehangaf o dwyni tywod yng Nghymru. Ynghyd ag Ynys Llanddwyn, fe'i dynodwyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol ym 1955, er nad yw hynny'n cynnwys y goedwig. Plannwyd y goedwig gan y Comisiwn Coedwigaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) rhwng 1947 a 1965 i ddarparu cyflenwad o bren ond hefyd i rwystro'r twyni rhag cael eu chwythu ymaith. Er i'r coed sefydlogi'r tir, cawsant hefyd yr effaith o sychu'r lefel trwythiad, gan o bosibl fygwth y rhwydwaith bregus o gynefinoedd a ddynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae gwaith rheoli gofalus yn parhau gyda'r nod o leihau'r effaith hwnnw a sicrhau bod digon o arwynebedd tywod yn aros heb orchudd llystyfiant.

Gall fod yn syndod sylweddoli bod y dirwedd hardd hon y tynnwyd ei llun gymaint yn ganlyniad i gadwyn hir o ddigwyddiadau, trychinebau ac ymyriadau dynol. Yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gollyngodd stormydd ffyrnig lwythi mawr o dywod ar yr hyn a fu'n dir amaethyddol ffrwythlon o gwmpas Niwbwrch. Cafodd y moresg a dyfodd ar y twyni a ffurfiodd ei gasglu'n lleol ar gyfer gwehyddu – ac yna daeth y cwningod i ymgartrefu, gan ffynnu am ganrifoedd fel adnodd lleol gwerthfawr arall, hyd ymron cael eu difa'n llwyr gan fycsomatosis yn y 1950au.

Tyfodd poblogrwydd Niwbwrch yn rhyfeddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth cynyddu proffil Ynys Llanddwyn gan gyfres deledu yn 2019 a oedd yn dilyn pedwar teulu'n byw yno fel y byddent yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Caiff nifer fawr o ymwelwyr eu denu yma gan y cyfuniad hudol o goedwig, traeth, ynys y gellir cerdded iddi a'r olygfa eang tuag at Eryri ac arfordir Llŷn yn ymestyn tua'r gorwel. Mewn pôl piniwn a gynhaliwyd ar-lein yn ystod y cyfnod clo, pleidleisiwyd mai ras parc Coedwig Niwbwrch oedd yr 'orau yn y byd', yn curo safleoedd eraill mor bell i ffwrdd ag Awstralia.

## Mending the marred

At the south west corner of Anglesey, the car driver leaves behind the village of Newborough and heads along a winding road that leads through a ticket barrier and into a forest of Corsican and Scots pine, roamed by red squirrels. You emerge eventually at a carefully laid-out carpark, with toilets and signage, where various waymarked trails branch off into the trees. On a windy day, you hear the sea before you catch sight of the waves breaking beyond the dunes, with Llanddwyn Island tempting walkers across the long curve of the shore.

The area as a whole is known as Newborough Warren, comprising the largest area of sand dunes in Wales. Together with the island of Llanddwyn, it was declared a National Nature Reserve in 1955, although the forest is excluded from the 'reserve' designation. That was planted by the Forestry Commission (now Natural Resources Wales) between 1947 and 1965 to provide timbers supplies but also to stop the sand dunes blowing away. While the trees stabilised the land, they also had a drying effect on the water table, potentially threatening the fragile network of habitats which are designated a Site of Special Scientific Interest. Ongoing careful management aims to minimise this effect and ensure that sufficient areas of sand remain free of vegetation.

It may be surprising to realise that the beautiful and much-photographed landscape is the consequence of a long chain of events, catastrophes and human interventions. Back in the fourteenth century, violent storms deposited huge quantities of sand on what had been fertile farmland around Newborough. The marram grass that grew in the resulting dunes was locally harvested for weaving – and then the rabbits moved in as well, flourishing for centuries and providing another valuable local resource, until virtually wiped out by myxomatosis in the 1950s.

Newborough's popularity has grown exponentially in recent years, boosted by the profile given to Llanddwyn Island by a 2019 TV series featuring four families living there 1900s-style. Huge numbers of visitors are drawn by a magnetic combination of forest, beach, accessible island, and the panorama of Snowdonia and the Llŷn coast stretching beyond. An online poll conducted during the pandemic lockdown voted Newborough Forest parkrun 'best in the world', beating competition from as far away as Australia.

In some ways, the whole area is testament

Mewn rhai ffyrdd, mae'r ardal gyfan yn tystio i'r budd a all ddod pan fydd bodau dynol yn ymyrryd mewn tirwedd. Gallai gadael i'r safle 'ddad-ddofi' ohoni ei hun fod o fudd i rai rhywogaethau a chynefinoedd ond, am y tro, cynhelir cydbwysedd rhesymol rhwng gwahanol flaenoriaethau: cynefin pwysig yn wyddonol, rhywle i deuluoedd gael hwyl, adnodd cynhyrchu pren a safle ar gyfer mentrau fel y Triathlon Llanc y Tywod blynyddol. Nid yw gweithgarwch dynol yn arwain o reidrwydd at ddirywiad amgylcheddol; nid oes raid i newid olygu newid er gwaeth.

to the benefits of human intervention in a landscape. Leaving the area to 'rewild' itself would benefit some species and habitats but, for now, a reasonable balance is struck between different priorities: scientifically important habitat, place for family fun, timber resource, and also setting for such endeavours as the annual Sandman Triathlon. Human activity does not automatically lead to environmental degradation; change does not have to mean change for the worse.

## Testunau o'r Beibl

*Cymerodd yr Arglwydd Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw. Rhoddodd yr Arglwydd Dduw orchymyn i'r dyn, a dweud, "Cei fwyta'n rhydd o bob coeden yn yr ardd, 17ond ni chei fwyta o bren gwybodaeth da a drwg, oherwydd y dydd y bwytei ohono ef, byddi'n sicr o farw."*

*Dywedodd wrth Adda: "Am iti wrando ar lais dy wraig, a bwyta o'r pren y gorchmynnais i ti beidio â bwyta ohono, melltigedig yw'r ddaear o'th achos; trwy lafur y bwytei ohoni holl ddyddiau dy fywyd. Bydd yn rhoi iti ddrain ac ysgall, a byddi'n bwyta llysiau gwyllt.Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara hyd oni ddychweli i'r pridd, oherwydd ohono y'th gymerwyd; llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli."*

***Genesis 2:15-17, 3:17-19***

*Yna dangosodd yr angel imi afon dŵr y bywyd, yn ddisglair fel grisial, yn llifo allan o orsedd Duw a'r Oen, ar hyd canol heol y ddinas. Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg cnwd, gan roi pob cnwd yn ei fis; ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd. Ni bydd dim mwyach dan felltith. Yn y ddinas bydd gorsedd Duw a'r Oen, a'i weision yn ei wasanaethu; cânt weld ei wyneb, a bydd ei enw ar eu talcennau. Ni bydd nos mwyach, ac ni bydd arnynt angen na golau lamp na golau haul, oherwydd bydd yr Arglwydd Dduw yn eu goleuo, a byddant hwy'n teyrnasu byth bythoedd.*

***Datguddiad 22:1-5***

Mae'r Beibl yn agor gyda hanes Duw yn creu cartref ar gyfer y ddynoliaeth – paradwys mewn gardd – ac yn cloi gyda gweledigaeth o ardd mewn dinas, paradwys wedi'i hail-greu. Er mai cynnig egwyddorion, yn hytrach na chanllawiau

## Bible passages

*The Lord God took the man and put him in the garden of Eden to till it and keep it. And the Lord God commanded the man, 'You may freely eat of every tree of the garden; but of the tree of the knowledge of good and evil you shall not eat, for in the day that you eat of it you shall die.'*

*And to the man he said, 'Because you have listened to the voice of your wife,and have eaten of the tree about which I commanded you, "You shall not eat of it",cursed is the ground because of you; in toil you shall eat of it all the days of your life; thorns and thistles it shall bring forth for you; and you shall eat the plants of the field. By the sweat of your face you shall eat bread until you return to the ground, for out of it you were taken; you are dust, and to dust you shall return.'*

***Genesis 2:15-17, 3:17-19***

*Then the angel showed me the river of the water of life, bright as crystal, flowing from the throne of God and of the Lamb through the middle of the street of the city. On either side of the river is the tree of life with its twelve kinds of fruit, producing its fruit each month; and the leaves of the tree are for the healing of the nations. Nothing accursed will be found there any more. But the throne of God and of the Lamb will be in it, and his servants will worship him; they will see his face, and his name will be on their foreheads. And there will be no more night; they need no light of lamp or sun, for the Lord God will be their light, and they will reign for ever and ever.*

***Revelation 22:1-5***

The Bible begins with the story of God creating a home for humanity – a garden paradise –



*Twyni Niwbwrch*
*The sands at Newborough*

manwl, ar gyfer y ffordd rydym i fyw y mae'r disgrifiadau trawiadol, maent yn dangos y modd, yn y dechreuad, yr oedd y Creawdwr yn dymuno y byddai yna berthynas gydnaws rhwng y creaduriaid a'r cread. Cafodd y berthynas honno ei niweidio, ond nid ei dinistrio, gan anufudd-dod y ddynoliaeth, a thrwy ddyfodiad Iesu cafodd ei hiacháu tu hwnt i bob disgwyl. Yn y diwedd, mae'r iachâd hwnnw yn amlwg yn cael ei gynnig i bawb, nid yn unig i'r rhai sy'n sicr eu bod wedi'u 'hachub', wrth i'r 'cenhedloedd' gael eu croesawu i ddinas Duw (Datguddiad 21: 24 – 26).

Yn yr ardd, yn y dechreuad, mae'r ddynoliaeth yn gartrefol ond mae gwaith i'w wneud hefyd. Nid yw'r gwaith yn arbennig o drwm, gan mai coed ffrwythau sy'n tyfu yn yr ardd hon, ond mae Duw hefyd yn gosod ffiniau: nid oes gan y dyn a'r ddynes (a gyflawnir i ni yn 2:22) hawl i bopeth yn yr ardd hon. Mae croesi'r ffiniau hynny o fwriad yn profi'n weithred gwbl ddinistriol: yn ogystal â dod ag ymrafael a thrallod rhwng creaduriaid byw (3:14 – 16), golyga y bydd y tir ei hun bellach yn gofyn ymdrech i'w drin yn hytrach na chynnig ffrwythlondeb rhwydd. Mae'r sôn am lafurio caled a 'drain ac ysgall' yn darlunio bywyd blinderus ffermwyr ymgynhaliol sydd ag ond un cynhaeaf rhyngddynt a newyn drwy'r adeg. Mae bywyd toreithiog y greadigaeth, y datganodd Duw ei fod yn 'dda iawn', bellach dan gysgod angau anochel, ac adleisir y geiriau 'llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli' ar lan llawer bedd hyd heddiw.

and ends with the vision of a garden in a city, paradise re-made. While the vivid descriptions offer principles (rather than blueprints) for living, they show how, in the beginning, the Creator intended a harmonious relationship between creatures and creation. That relationship was damaged but not destroyed by human disobedience and, through the coming of Jesus, healed beyond expectation. In the end, that healing is clearly held out to all people, not just the self-identified 'saved', as 'the nations' are welcomed into the city of God (Revelation 21: 24 – 26).

In the garden, in the beginning, humanity is at home but has work to do as well. The work is not particularly demanding, because this garden consists of fruit-bearing trees, but God also provides boundaries: the man and the woman (whom we meet in 2:22) cannot have access to everything in the garden. The wilful crossing of those boundaries proves totally destructive: as well as strife and anguish between living creatures (3:14 – 16), the ground itself is doomed to become a place of struggle instead of easy fruitfulness. The 'painful toil' and 'thorns and thistles' speak of the arduous life of the subsistence farmer, always one harvest away from going hungry. The abundant life of creation, declared 'very good' by God, is now warped by the inevitability of death: 'dust you are and to dust you will return', words echoed at every grave-side.

Roedd deddfau'r Hen Destament yn darparu ar gyfer hwsmonaeth ddoeth a dulliau ffermio trugarog (ar gyfer y tir yn ogystal â'r da byw, megis egwyddor y 'flwyddyn Sabothol', Lefiticus 25: 2 – 7). Ac fe gawn gipolwg weithiau hefyd ar y gobaith o adfer yn gyflawn y cydbwysedd, y gynghanedd a'r dedwyddwch a fwriadai'r Creawdwr yn y lle cyntaf. Mae yn Eseciel 47, er enghraifft, ddisgrifiad byw o afon yn llifo o'r Deml yn Jerwsalem ar ôl adfer y ddinas yn dilyn trychineb y gaethglud i Fabilon. Ar ddwy lan yr afon mae 'nifer mawr o goed' (adnod 7), sy'n ffrwytho'n fisol ac y mae eu 'dail yn iechyd' (adnod 12).

Adleisir gweledigaeth Eseciel yn eglur gan Ioan o Batmos yn Natguddiad 22: mae'r afon yma eto, ond y tro hwn cyfeirir ati'n benodol fel 'dŵr y bywyd' (adnod 1) ac mae'n llifo nid o'r Deml ond 'allan o orsedd Duw a'r Oen', yng nghanol y Jerwsalem newydd sydd wedi dod i lawr i'r ddaear o'r nefoedd. Yn y ddinas hon nid oes angen aros am y cynhaeaf achos mae pren y bywyd ei hun yn tyfu ar lan afon bywyd, gan ddwyn cnwd newydd o ffrwyth bob mis ynghyd â'r dail bendithiol hynny sydd 'er iachâd y cenhedloedd' (adnod 2). Mae'n werth nodi mai'r union yr un rhai yw'r 'cenhedloedd' sydd wedi eu cynnull ynghyd i'r cartref newydd disglair hwn â'r rhai a fu gynt mor anufudd i ofynion Duw ac mor gyndyn i ymateb i unrhyw alwadau i newid, fel y'u disgrifir mewn penodau blaenorol yn Llyfr y Datguddiad.

## Edrych ymlaen mewn gobaith

Wrth graidd gobaith yr Adfent i ni mae'r gobaith am ddychweliad Iesu. Ni ddylai meddwl am hynny ein dychryn gyda delweddau o ddedfrydau'r llys ac apeliadau na wrandewir; o gwmpas gorsedd yr un a ddaw yn farnwr mae'r enfys, sy'n arwydd o drugaredd tragwyddol Duw (Datguddiad 4: 3) ac sy'n ein hatgoffa o addewid Duw i warchod y greadigaeth ar ôl dinistr y Dilyw.

Mae gobaith yr Adfent yn ein gwahodd i edrych ymlaen tuag at adeg pryd, unwaith eto, y bydd cydbwysedd a chynghanedd yn nodweddu'r greadigaeth, pryd y perchir pob bywyd ac y bydd y ddynoliaeth yn troedio'n dyner ar y ddaear. Mae'r adeg honno wedi ei rhagddarlunio'n barod yn nyfodiad Eneiniog Duw, a anwyd yn faban fel ninnau, a fu fel gŵr ifanc yn pregethu ac yn iacháu ac, yn y diwedd, a fu farw i wneud iawn am bechodau'r byd, gan drwsio'r greadigaeth ddrylliedig. Drylliodd ei atgyfodiad rym angau ei hun a daeth Ysbryd Duw i rymuso ei ddilynwyr i gludo'r newyddion da i bob rhan o'r byd.

The Old Testament law made provision for wise husbandry and compassionate farming methods (for the land as well as livestock, such as the principle of the 'Sabbath year', Leviticus 25: 2 – 7). What we also find are glimpses of a full restoration of the balance, harmony and blessedness that was the Creator's original intentions. Ezekiel 47, for example, speaks in vivid terms of a river flowing from the temple in a Jerusalem restored after the ravages of exile to Babylon. This river is flanked by 'a great number of trees' (v.7), which bear fruit each month and whose leaves are healing (v.12).

Ezekiel's vision is clearly echoed by John of Patmos in Revelation 22: here again is the river, but this time it is explicitly identified as 'the water of life' (v.1) and it flows not from the temple but from 'the throne of God and of the Lamb', at the heart of the new Jerusalem which has come down to earth from heaven. In this city, there is no need to wait for harvest because the tree of life itself grows on the banks of the river of life, and every month sees a fresh yield of fruit, and those medicinal leaves that are for the healing of 'the nations' (v.2). It is worth noting that the 'nations' gathered into this shining new home are the very same who had been so disobedient to God's ways and resistant to any calls to change, as described in the earlier chapters of Revelation.

## Looking forward in hope

At the heart of our Advent hope is the hope of Christ's return. That prospect should not frighten us with overtones of courtroom verdicts and appeals unheard; the throne of the one who comes as judge is encircled by the rainbow that is the symbol of God's eternal mercy (Revelation 4:3) and a reminder of God's promise to safeguard creation after the devastation of the Flood.

Our Advent hope is about looking forward to a time when, once again, creation is characterised by balance and harmony, when all life is honoured and humanity walks lightly on the earth. That time has already been foreshadowed in the advent of God's Anointed One, born as a helpless baby, preaching and healing as a young man and, in the end, dying to atone for the sins of the world, mending the brokenness of creation. His resurrection broke the power of death itself and the coming of God's Spirit empowered his followers to take the good news to the ends of the earth.

Pan weddïwn 'Deled dy deyrnas, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd', sôn yr ydym am y nefoedd yn dod yma yn hytrach na ninnau'n mynd yno. Mae rhannu'r newyddion da, gobaith yr Efengyl, yn ymwneud nid yn unig â'r hyn sydd i ddod y tu hwnt i'r bedd ond â dangos mai dyma newyddion da ar gyfer heddiw ac ar gyfer ein cyd-destunau presennol a phersonol. Mae'r newyddion da'n golygu y bydd y diffeithwch yn blodeuo a'r crastir yn troi'n llynnoedd (gweler Eseia 35:1 – 2, 7), y byd naturiol yn ymgorffori llawenydd y ddynoliaeth o gael ei hadfer i'w gwir gartref (adnod 10).

Gallwn deimlo'n ddiymgeledd ar gefnfor hanes, gyda'n bywydau bach a'n dewisiadau pitw'n effeithio dim ar gerhyntau byd-eang ymelwa didrugaredd ac awchu am enillion tymor byr ar draul colledion hirdymor. Fe'n gelwir fel dilynwyr Crist, fodd bynnag, i gysegru'n dyddiau i unioni camweddau, i herio anghyfiawnder ac anghyfartaledd ac i amddiffyn achos y bregus a'r rhai di-lais, ac mae hynny'n cynnwys y blaned ei hun.

When we pray 'Thy kingdom come on earth as in heaven', we are speaking in term of 'heaven coming here' rather than us 'going up there'. Our sharing of the good news, the gospel hope, is not simply about what lies beyond the grave but showing that this is good news for today, for our present and personal contexts. The good news means the wilderness 'bursting into bloom' and the desert sands becoming pools (see Isaiah 35:1 – 2, 7), the natural world embodying the joy felt by humanity restored to their true home (v.10).

We may feel helpless in the tides of history, our small lives and petty choices making no impact on the global currents of relentless profiteering and short-term gains at the price of long-term losses. We have a calling as Christ's followers, however, to give our days to the righting of wrongs, to facing down injustice and inequalities, and defending the cause of the vulnerable and voiceless, and that includes the planet itself.

## Colect

> *Arglwydd Dduw, creawdwr y mynyddoedd a'r môr, fel y mae'r llanw a'r trai yn rhoi ac yn cymryd ymaith, rho i ni'r ewyllys a'r doethineb i weithio gyda rhythmau dy greadigaeth, i ddod â chydbwysedd a chynghanedd i'n byd ac i'n bywydau; drwy Iesu Grist ein Harglwydd, gyda'r hwn yr wyt ti a'r Ysbryd Glân yn teyrnasu mewn undod perffaith. Amen.*

## Collect

> *Lord God, creator of the mountains and the sea, as the ebb and flow of the tide gives and takes away, grant us the willingness and wisdom to work with the rhythms of your creation, to bring balance and harmony in our world and in our lives; through Jesus Christ our Lord, with whom you and the Holy Spirit reign in perfect unity. Amen.*

## Cwestiynau

***Rhannwch atgof llawen o adeg gwyliau.***

***Sut ydym i ganfod y cydbwysedd iawn rhwng defnyddio a diogelu adnoddau'r ddaear?***

***Sut ydym i gyfrannu tuag at 'iachâd y cenhedloedd'?***

***Pa newidiadau allwn ni eu gwneud yn ystod yr Adfent eleni i 'droedio'n dynerach ar y ddaear'?***

## Questions

***Share a happy holiday memory.***

***How do we find the balance between consuming and conserving earth's resources?***

***How do we participate in the 'healing of the nations'?***

***What changes can we make this Advent to 'walk more lightly on the earth'?***



*Hollalluog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch ac i wisgo arfau'r goleuni, yn awr yn y bywyd marwol hwn a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngeiddrwydd mawr; fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol; trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.*

*Almighty God, give us grace to cast away the works of darkness and to put on the armour of light, now in the time of this mortal life, in which your Son Jesus Christ came to us in great humility; that on the last day, when he shall come again in his glorious majesty to judge the living and the dead, we may rise to the life immortal; through him who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.*